# Asesiadau personol – Canllaw i ddefnyddwyr 2024 i 2025

Y Ddesg Gymorth
8a.m.– 5p.m.
Ffôn: 029 2026 5099
e-bost: cymorth@asesiadaupersonol.cymru

# Asesiadau personol – Canllaw i ddefnyddwyr 2024 i 2025

## Cynulleidfa
Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion prif ffrwd ac arbennig; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol eglwysi; y consortia addysg rhanbarthol; cyrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg.

## Trosolwg
Mae'r canllaw hwn yn nodi'r prosesau ar gyfer gweinyddu'r asesiadau personol y bydd pob dysgwr ym Mlynyddoedd 2 i 9 yn eu gwneud.

## Camau i'w cymryd
Dylai penaethiaid, gweinyddwyr ac athrawon gyfeirio at y canllaw hwn am wybodaeth ynglŷn â sut mae'r asesiadau personol yn gweithio, y gofynion a'r gosodiadau TG, amodau gweinyddu'r asesiadau, y personél sydd i weinyddu'r asesiadau, cael mynediad at adroddiadau a'u dehongli, a sut i gael mynediad at fersiynau wedi'u haddasu o'r asesiadau.

## Rhagor o wybodaeth
Dylid cyfeirio ymholiadau am weinyddu'r asesiadau personol at Ddesg Gymorth yr Asesiadau.

Ffôn: 029 2026 5099
e-bost: cymorth@asesiadaupersonol.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Dogfennau cysylltiedig
Asesiadau Personol Cenedlaethol ar Gyfer Darllen a Rhifedd: llawlyfr gweinyddu

**ISBN Digidol**
**978-1-83625-370-9**
© Hawlfraint y Goron Medi 2024
WG50340

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 5**

**2. Sut mae'r asesiadau yn gweithio ..... 6**

2.1 Canllawiau i staff ..... 6
2.2 Amseru a chymryd egwyl ..... 6
2.3 Asesiadau mewn lleoliadau eraill e.e. unedau cyfeirio disgyblion ..... 8
2.4 Treialu cwestiynau'n fyw ..... 8
2.5 Ymateb i gwestiynau gan ddysgwyr ..... 8

**3. Cyn yr asesiad ..... 9**

3.1 Gwirio'r trefniadau TG ..... 9
3.2 Sut mae gwneud y mwyaf o fy nghysylltiad â'r rhyngrwyd? ..... 9
3.3 Pa ddyfeisiau y gallwn eu defnyddio? ..... 10
3.4 Pa borwyr y gallaf eu defnyddio i gynnal yr asesiadau? ..... 10
3.5 Cadarnhau eich cysylltiad â'r rhyngrwyd a lled y band ..... 10
3.6 Rhestrau gwirio TG ..... 11
3.7 Mewngofnodi i Hwb ..... 12
3.8 Trefn gwefan yr asesiadau – rheoli defnyddwyr ..... 13
3.9 Trefnu a newid asesiadau ..... 17
3.10 Trefnu asesiad ar y diwrnod ..... 22
3.11 Arweiniad ar ryddhau asesiadau i ddysgwyr fesul dosbarth ..... 24
3.12 Dewisiadau iaith ..... 26
3.13 Asesiadau ymgyfarwyddo ..... 26
3.14 Cynnwys clyweledol – Rhifedd (Rhesymu) yn unig ..... 28
3.15 Rhestrau gwirio ar gyfer yr asesiadau ..... 30
*3.15.1 Rhestr wirio i'r staff ..... 30*
*3.15.2 Rhestr wirio i'r dysgwyr ..... 32*

**4. Cynnal asesiad ..... 34**

4.1 Hwyluso asesiad personol ..... 34
4.2 Mewngofnodi'r dysgwyr ..... 37
4.3 Cyflwyno'r asesiad ..... 38
*4.3.1 Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol) ..... 38*
*4.3.2 Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu) ..... 39*
*4.3.3 Asesiadau Personol Darllen ..... 44*

**5. Ar ôl yr asesiad ..... 49**

5.1 Adroddiadau ..... 49
5.2 Mynediad i staff ..... 49
5.3 I weld a rhyddhau adborth y dysgwyr ..... 50
5.4 I weld adroddiadau cynnydd y dysgwyr ..... 51
5.5 I weld yr adroddiadau grŵp ..... 53
5.6 Cynhyrchu swp-adroddiadau ..... 56
5.7 Ychwanegu nodyn am adroddiad grŵp neu swp-adroddiad a'i olygu ..... 59
5.8 Dileu adroddiad grŵp neu swp-adroddiad ..... 62
5.9 Dehongli'r adroddiadau ..... 62
*5.9.1 Adroddiad adborth y dysgwr ..... 63*
*5.9.2 Adroddiad cynnydd y dysgwr ..... 64*
*5.9.3 Adroddiad grŵp ..... 65*
*5.9.4 Adroddiad grŵp: Proffil grŵp (plot gwasgariad) ..... 65*
*5.9.5 Adroddiad grŵp: Proffil o sgiliau'r grŵp (meysydd y FfLlRh) ..... 65*
*5.9.6 Adroddiad grŵp: Llwybrau'r dysgwyr ..... 66*

*5.9.7 Adroddiad cynnydd grŵp* ... *67*
*5.9.8 Proffil o sgiliau'r grŵp (dadansoddi cryfderau a meysydd datblygu at y dyfodol)* ... *68*
*5.9.9 Rhedeg ymholiad* ... *69*

**6. Y fersiynau wedi'u haddasu o'r asesiadau personol ... 71**
6.1 Y fersiynau hygyrch sydd ar gael ... 71
6.2 Trefniadau mynediad ... 74
*6.2.1 Cymryd egwyl a'r amser a ganiateir* ... *74*
*6.2.2 Man tawel* ... *74*
*6.2.3 Newid lliw* ... *74*
6.3 Defnyddio meddalwedd darllen sgrin ... 75
6.4 Offer chwyddo ... 76
6.5 Llywio gan ddefnyddio'r Tab – Rhifedd (Gweithdrefnol) ... 77
6.6 Llywio gan ddefnyddio'r Tab – Rhifedd (Rhesymu) ... 78
6.7 Llywio gan ddefnyddio'r Tab – Darllen ... 78
6.8 Iaith Arwyddion Prydain ... 79
6.9 Cynnwys sain ... 79
6.10 Ysgrifenyddion ... 79
6.11 Darllenwyr ... 79
6.12 Darllen yn uchel ... 79
6.13 Addasu anhawster y cwestiwn cyntaf i ddysgwr ... 80

**7. Y Ddesg Gymorth ... 81**
7.1 Ymholiadau cyffredinol a chymorth ... 81
7.2 Cwestiynau cyffredin a datrys problemau technegol ... 81

**Atodiad: Arweiniad o ran dysgwyr sydd â chofrestriad deuol (unedau cyfeirio disgyblion) .. 82**

**1. Cyflwyniad ... 82**

**2. Hanfodion ... 82**

**3. Cyn yr asesiad ... 82**
3.1 Sut i drefnu asesiad ar gyfer dysgwyr sydd â chofrestriad deuol ... 82

**4. Rhedeg asesiad ... 83**
4.1 Sut i hwyluso asesiad ar gyfer dysgwr sydd â chofrestriad deuol ... 83
4.2 Sut y bydd dysgwyr sydd â chofrestriad deuol yn gallu gweld asesiadau a drefnwyd gan y brif ganolfan neu'r is-ganolfan ... 83

**5. Ar ôl yr asesiad ... 84**
5.1 Sut i gynhyrchu adroddiadau i ddysgwyr sydd â chofrestriad deuol ... 84
5.2 Sut i greu adroddiadau grŵp neu swp-adroddiadau wedi'u teilwra ... 84

# 1. Cyflwyniad


Mae’r asesiadau personol wedi’u cynllunio i fod yn hwylus ac yn hyblyg i’w defnyddio. Mae’r canllaw hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gynnal yr asesiadau.

Mae’r canllaw yn esbonio beth sydd angen ichi ei wneud:

- cyn yr asesiadau
- ar ddiwrnod cynnal yr asesiadau
- ar ôl cwblhau’r asesiadau.

**Noder:** Er mwyn i aelodau staff drefnu asesiadau neu gael mynediad at wybodaeth am ddysgwyr, ar ddechrau pob blwyddyn ysgol, bydd angen i benaethiaid neu staff sydd â chaniatâd dirprwyedig dderbyn y cytundeb data, a neilltuo swyddogaethau a chaniatáu mynediad i aelodau eraill o staff – gweler adran 3.8, tudalen 13.

Mae adnoddau ar gael o adran ‘Cymorth’ gwefan yr asesiadau, gan gynnwys canllawiau fideo a rhestrau gwirio i staff a dysgwyr.



## 2. Sut mae'r asesiadau yn gweithio

- Mae'r asesiadau personol yn cael eu creu o gronfeydd mawr o gwestiynau sy'n asesu'r sgiliau darllen a rhifedd y dysgwyr. Mae'r asesiadau yn cyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) diwygiedig, sydd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu ethos ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru.
- Mae pob asesiad yn cael ei deilwra yn ôl ymatebion y dysgwr; hynny yw, mae'r system asesu yn dewis cwestiynau i'w cyflwyno i'r dysgwr ar sail atebion y dysgwr i gwestiynau blaenorol. Er enghraifft, os yw'r dysgwr yn ateb cwestiwn yn gywir, mae'n cael cwestiwn mwy heriol, ac os yw'n ateb cwestiwn yn anghywir, mae'n cael cwestiwn haws.
- Bydd cwestiwn cyntaf asesiad wedi'i ddethol i fod yn briodol i ddysgwr yn ei flwyddyn gwricwlaidd gyfredol, er y gall yr aelod o staff sy'n trefnu'r asesiad newid hyn, lle bo'n briodol.
- Bydd y system yn stopio'r asesiad unwaith iddi gasglu digon o wybodaeth i wneud penderfyniad dibynadwy am sgiliau'r dysgwr, neu unwaith i'r dysgwr gyrraedd uchafswm nifer y cwestiynau a ganiateir.
- Mae'r broses bersonoli hon yn golygu y bydd pob dysgwr yn gweld set wahanol o gwestiynau (a thestunau ar gyfer yr Asesiadau Personol Darllen) ac y bydd nifer y cwestiynau/testunau yn amrywio.
- Caiff dysgwyr gwblhau hyd at ddau asesiad fesul pwnc mewn un flwyddyn ysgol.

### 2.1 Canllawiau i staff

- Bydd pob dysgwr yn gweld cynnwys sy'n eu hymestyn ac yn eu herio. Felly, bydd y dysgwyr i gyd, gan gynnwys y rhai mwy galluog, yn ateb rhai cwestiynau'n gywir a rhai yn anghywir.
- Mae hyn hefyd yn golygu y gallai'r dysgwyr gael ambell gwestiwn am bethau na addysgwyd iddynt yn ffurfiol eto.
- Mae'r asesiadau personol yn ffurfiannol (yn hytrach na'n grynodol fel cymwysterau TGAU neu Safon Uwch, er enghraifft). Mae hyn yn golygu eu bod yn rhoi adborth ar y meysydd sgiliau y mae dysgwyr yn gwneud yn dda ynddynt neu y gallent wneud yn well ynddynt.
- Maent hefyd yn rhoi gwybodaeth i athrawon am y meysydd sgiliau y mae eu dysgwyr yn gryf ynddynt a'r rhai y mae angen eu datblygu ymhellach, o bosibl, gan nodi sut mae'r dosbarth ar y cyfan yn cyflawni.
- Pennir 'lefel gallu' dysgwyr ar sail anhawster y cwestiynau a gawsant yn gywir. Bydd dysgwyr yn cyrraedd 'lefelau gallu' gwahanol, ar sail pwy atebodd y cwestiynau mwyaf heriol yn gywir, er bod disgwyl i bob dysgwr gael tua'r un nifer o gwestiynau yn gywir.
- Cyn dechrau asesiad, rhaid rhoi gwybod i'r dysgwyr am y nodweddion allweddol sydd wedi'u nodi ar y rhestr wirio i ddysgwyr – ar dudalen 32. Mae'r rhestr hefyd ar gael o adran 'Cymorth' gwefan yr asesiadau.

### 2.2 Amseru a chymryd egwyl

- Nid oes terfyn amser ar yr asesiadau, felly caiff dysgwyr ateb y cwestiynau wrth eu pwysau eu hun, heb frysio.
- Mae'r asesiadau ar gael i athrawon eu rhyddhau o 8a.m., a chaiff pob asesiad ei gwblhau yn awtomatig gan y system am 5p.m.. Argymhellwn, felly, nad ydych yn dechrau unrhyw asesiadau wedi 4p.m. i sicrhau bod gan ddysgwyr ddigon o amser i'w gorffen.
- Dylid annog y dysgwyr i fwrw ymlaen drwy'r cwestiynau yn hytrach na threulio gormod o amser ar gwestiynau na allant eu hateb.
- Fel arfer, mae'r Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol) yn para rhwng 25 a 30 munud.

- Mae'r Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu) fel arfer yn para rhwng 30 a 35 munud.
- Mae'r Asesiadau Personol Darllen yn para rhwng 20 a 40 munud, fel arfer.
- Cynghorir y staff i arfer eu barn broffesiynol yn achos y dysgwyr hynny sy'n cymryd mwy o amser na hyn i gwblhau'r asesiad. Gallant ddewis annog y dysgwr i weithio'n gyflymach neu roi'r gorau i asesiad sy'n afresymol o hir. Mae staff yn gallu oedi neu stopio'r asesiad unrhyw bryd, ond rhaid dechrau a gorffen yr asesiad ar yr un diwrnod. Fel arall, mae modd i staff ganslo'r asesiad a'i drefnu ar gyfer diwrnod arall yn lle.
- Dyma'r nifer fwyaf a'r lleiaf o gwestiynau:

**Mwyafrif a lleiafrif y cwestiynau Rhifedd (Gweithdrefnol)**

| Blwyddyn | Lleiafrif | Mwyafrif |
|---|---|---|
| **Bl2** | 28 | 29 |
| **Bl3** | 28 | 29 |
| **Bl4** | 28 | 29 |
| **Bl5** | 28 | 29 |
| **Bl6** | 28 | 29 |
| **Bl7** | 28 | 29 |
| **Bl8** | 28 | 29 |
| **Bl9** | 28 | 29 |

**Mwyafrif a lleiafrif y cwestiynau Rhifedd (Rhesymu)**

| Blwyddyn | Lleiafrif | Mwyafrif |
|---|---|---|
| **Bl2** | 13 | 18 |
| **Bl3** | 13 | 18 |
| **Bl4** | 10 | 20 |
| **Bl5** | 10 | 20 |
| **Bl6** | 10 | 20 |
| **Bl7** | 10 | 20 |
| **Bl8** | 10 | 20 |
| **Bl9** | 10 | 20 |

**Mwyafrif a lleiafrif y cwestiynau Darllen**

| Blwyddyn | Lleiafrif | Mwyafrif |
|---|---|---|
| **Bl2** | 31 | 32 |
| **Bl3** | 31 | 32 |
| **Bl4** | 31 | 32 |
| **Bl5** | 32 | 34 |
| **Bl6** | 31 | 32 |
| **Bl7** | 31 | 32 |
| **Bl8** | 31 | 32 |
| **Bl9** | 31 | 32 |

- Caniateir rhoi egwyl i ddysgwyr o unrhyw oedran, a gellir cynnal yr asesiad fesul tipyn drwy gydol y diwrnod ysgol.
- Dylai dysgwyr ym Mlynyddoedd 2 a 3 gael egwyl yn sicr. Caiff yr ysgol benderfynu ar hyd yr egwyl. Dylai'r staff fonitro'r sefyllfa i benderfynu a yw'n briodol rhoi egwyl i ddysgwyr eraill, a phryd fyddai orau i wneud hynny.
- Pan gaiff asesiad ei oedi neu ei stopio, bydd canlyniadau'r cwestiynau y mae'r dysgwr

wedi'u hateb yn cael eu cyflwyno i'r system am 5p.m. ar y diwrnod y cynhaliwyd yr asesiad oni chafodd yr asesiad ei ganslo. Bydd adroddiad adborth y dysgwr ac adroddiad cynnydd yn cael eu cynhyrchu dros nos yn dilyn yr asesiad, a hynny gyda'r wybodaeth sydd ar gael. Os na atebwyd digon o gwestiynau, mae'n bosibl na fydd yr adroddiadau yn gallu cael eu cynhyrchu, ac y bydd datganiad o rybudd i'w weld yn lle.
- Nid oes modd ailddechrau nac aildrefnu asesiad sydd wedi'i gwblhau, ar ôl i'r atebion gael eu cyflwyno.

## 2.3 Asesiadau mewn lleoliadau eraill e.e. unedau cyfeirio disgyblion

Mae dysgwyr sydd â chofrestriad deuol mewn ysgol prif ffrwd ac mewn uned cyfeirio disgyblion (PRU) neu ysgol arbennig yn gallu gwneud yr asesiadau yn y naill ysgol neu'r llall. Pennaeth yr ysgol prif ffrwd y mae'r dysgwr wedi cofrestru â hi sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr asesiadau yn cael eu gwneud, ac mae modd trefnu i'r dysgwr eu gwneud yn y naill leoliad neu'r llall.

Mae modd i athrawon drefnu asesiad personol ar y naill safle dysgu neu'r llall i ddysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad. Bydd y ddwy ysgol yn gallu gweld adborth ac adroddiadau cynnydd y dysgwr. Bydd canlyniadau'r dysgwyr sydd â chofrestriad deuol yn cael eu cynnwys yn awtomatig yn adroddiadau grŵp a swp-adroddiadau y ddwy ysgol, waeth pa ysgol y cafodd yr asesiad ei wneud ynddi. Cyn gwneud cais am adroddiad, bydd athrawon yn gallu creu grwpiau penodol (er enghraifft, grŵp PRU) o'r dysgwyr hynny yr hoffent iddynt ymddangos mewn adroddiad grŵp neu swp-adroddiad. I gael rhagor o wybodaeth am greu adroddiadau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr, ewch i adran 5.5 ar dudalen 53.

Mae'r prosesau sydd ynghlwm wrth drefnu asesiad i ddysgwyr sydd â chofrestriad deuol mewn uned cyfeirio disgyblion wedi'u diffinio yn yr Atodiad i'r canllaw hwn, ar dudalen 82.

## 2.4 Treialu cwestiynau'n fyw

O bryd i'w gilydd, gall asesiad gynnwys cwestiwn treialu ar y diwedd. Diben hyn yw casglu data am ba mor anodd yw cwestiynau ac am berfformiad y dysgwyr ar y cwestiynau hynny cyn iddynt gael eu cynnwys fel eitemau byw (wedi'u sgorio) o fewn y banc cwestiynau. Pan fydd cwestiwn treialu'n cael ei gynnwys, bydd yn ymddangos olaf mewn asesiad bob tro ac ni fydd dysgwyr yn cael gwybod ei fod yn cael ei dreialu. Ni fydd yr ateb a roddwyd i'r cwestiwn hwnnw yn cyfrannu dim at ganlyniad yr asesiad nac yn cael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiad. Fodd bynnag, bydd yr eitem yn cyfateb i flwyddyn gwricwlaidd y dysgwyr, neu i'r lefel is o anhawster os dewiswyd hynny wrth drefnu'r asesiad. Felly, gall y dysgwyr weld newid o ran anhawster ar ddiwedd yr asesiad os ydynt wedi cyrraedd lefel is/uwch na'u man cychwyn.

## 2.5 Ymateb i gwestiynau gan ddysgwyr

- Gyda'r Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol) a Rhifedd (Rhesymu), caniateir darllen y cwestiynau yn uchel i ddysgwyr, yn ôl yr angen, ond ni ddylid rhoi unrhyw gymorth gyda chynnwys rhifiadol y cwestiynau.

- **Ni ddylid** darllen y testunau na'r cwestiynau yn uchel i'r dysgwyr yn yr Asesiadau Personol Darllen. Dylech ateb cwestiynau fel 'Ai dyma'r un cywir?' drwy ddweud 'Dewisa'r un rwyt ti'n meddwl sy'n gywir'.

# 3. Cyn yr asesiad

## 3.1 Gwirio'r trefniadau TG

Bydd angen y canlynol ar ysgolion i allu cynnal asesiad personol:

- cysylltiad dibynadwy â'r rhyngrwyd – (fel arfer, bydd angen ichi gael lled band o 2Mbps o leiaf os ydych yn asesu dosbarth o 30 o ddysgwyr, heb unrhyw alwadau sylweddol eraill ar y rhwydwaith ar yr un pryd)
- dyfais a phorwr gwe – cyfrifiaduron bwrdd gwaith, gliniaduron neu dabledi/llechi, e.e. iPad neu Chromebook. Caniateir defnyddio cyfuniad o ddyfeisiau wrth gynnal asesiadau.

Isod ceir yr atebion i rai cwestiynau cyffredin.

## 3.2 Sut mae gwneud y mwyaf o fy nghysylltiad â'r rhyngrwyd?

Pan fydd dyfeisiau yn defnyddio rhwydwaith eich ysgol, gall y ffactorau canlynol effeithio ar gryfder a dibynadwyedd eich cysylltiad â'r rhyngrwyd.

| Ffactor | Esboniad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Seilwaith y rhwydwaith** Mae hyn yn cynnwys ceblau rhwydwaith, llwybryddion, switsys rhwydwaith a phwyntiau mynediad di-wifr. Os nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, gall rhwydwaith eich ysgol fod yn araf a gall beidio ag ymateb. | Mae'n bwysig gwirio seilwaith eich rhwydwaith a'i gynnal a'i gadw, a chynllunio i wneud hynny'n rheolaidd. Bydd hyn yn rhoi sail gadarn i'ch holl wasanaethau digidol ac yn eich helpu i gael y mwyaf o'ch cysylltiad â'r rhyngrwyd. | Drwy gywiro unrhyw wendidau yn eich seilwaith, byddwch yn helpu i wella eich cysylltiad â'r rhyngrwyd.<br>Os bydd angen, cysylltwch â'ch awdurdod lleol am gyngor ar seilwaith presennol eich rhwydwaith, a gofynnwch sut y gallai eich helpu. |
| **Galwadau gwahanol ar eich cysylltiad â'r rhyngrwyd**<br>Mae cynnal gwersi ar yr un pryd, sy'n defnyddio cynnwys sy'n gyfoeth o gyfryngau (megis fideos i'w ffrydio) yn gallu leihau cyflymder y cysylltiad ac effeithio ar brofiad y defnyddwyr. | Ystyriwch rwydwaith eich ysgol (yn enwedig eich Wi-Fi) yn yr un ffordd â'r cyflenwad dŵr yn eich cartref – mae pob tap yn y tŷ yn rhannu'r un cyflenwad dŵr. Mae'r llif yn well os oes llai o dapiau'n rhedeg.<br>Drwy wella'r dull o reoli'r traffig a'r data sy'n cael eu defnyddio ar draws rhwydwaith eich ysgol, byddwch yn helpu i gael y mwyaf o'ch cysylltiad â'r rhyngrwyd ac yn gwella profiad eich defnyddwyr. | Cadarnhewch pryd y cynhelir gwersi sy'n defnyddio cynnwys sy'n gyfoeth o gyfryngau.<br>Bydd hyn yn helpu eich ysgol i gynllunio'r gweithgareddau sy'n dibynnu ar y cysylltiad â'r rhyngrwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Diweddaru meddalwedd a rhaglenni**<br>Mae hyn yn cynnwys diweddaru'r system weithredu, y feddalwedd ddiogelwch a rhaglenni eraill a allai effeithio ar gyflymder y rhyngrwyd yn eich ysgol. | Os bydd meddalwedd a rhaglenni'n cael eu diweddaru yn y cefndir wrth i asesiad gael ei gynnal, gall ymateb araf effeithio ar brofiad y dysgwyr.<br>Gyda rhai dyfeisiau, gallwch analluogi diweddariadau awtomatig, neu amserlennu'r union gyfnod diweddaru. | Os bydd angen, cysylltwch â'ch awdurdod lleol am gyngor ar sut i reoli proses ddiweddaru eich meddalwedd a'ch rhaglenni yn llwyddiannus. |

## 3.3 Pa ddyfeisiau y gallwn eu defnyddio?

Bydd staff yn gallu trefnu asesiadau yn unol â dymuniadau a chyfleusterau eu hysgol.

Cynlluniwyd yr asesiadau i gydweddu â'r rhan fwyaf o ddyfeisiau. Gellir eu defnyddio ar y dyfeisiau canlynol sydd â phorwr modern wedi'i osod (gweler yr adran nesaf):

- cyfrifiaduron bwrdd gwaith
- gliniaduron – gan gynnwys Chromebook
- tabledi/llechi – gan gynnwys iPad.

Cyn cynnal asesiad, dylid sicrhau bod y dyfeisiau wedi'u gwefru'n llawn a'u diweddaru. Argymhellwn eich bod yn diweddaru'r systemau gweithredu a'r rhaglenni yn rheolaidd. Wrth ddefnyddio Chromebook, sicrhewch fod y sgrin ar agor yn llawn drwy glicio ar fotwm 'mwyhau' y porwr neu'r bysellfwrdd.

## 3.4 Pa borwyr y gallaf eu defnyddio i gynnal yr asesiadau?

Dylid defnyddio un o'r porwyr canlynol (dyma'r gofynion sylfaenol o ran porwyr er mwyn gallu gwarantu cydnawsedd):

- Google Chrome
- Mozilla Firefox
- Microsoft Edge (Chromium)
- Safari.

**Noder:** Ni allwch gael mynediad at yr asesiadau personol drwy ddefnyddio Internet Explorer 11 mwyach. Mae hyn am fod Microsoft wedi rhoi'r gorau i gefnogi Internet Explorer 11 (IE11) yn 2022 ac ni fydd yn derbyn diweddariadau diogelwch gan Microsoft wedi hynny.

## 3.5 Cadarnhau eich cysylltiad â'r rhyngrwyd a lled y band

Os yw'r cysylltiad rhyngrwyd yn araf neu'n ysbeidiol, gall effeithio ar brofiad y dysgwyr yn y ffyrdd canlynol:

- bydd yn araf wrth ddilysu manylion y dysgwyr
- bydd yn araf i gyflwyno ateb i gwestiwn
- bydd amser y porwr yn dod i ben
- bydd neges gwall: 'Gwall wrth gysylltu â'r gweinydd'.

Os cewch y symptomau hyn, rydym yn argymell eich bod yn cadarnhau eich cysylltiad â'r rhyngrwyd a'ch lled band, fel hyn:

- cysylltwch â darparwr eich rhyngrwyd **neu**
- ewch i www.speedtest.net/, dewis 'Go', a chofnodi cyflymder y broses lawrlwytho a'r

cyflymder ymateb. Mae prawf ymateb yn mesur lled y band neu amser ymateb cysylltiad eich ysgol – h.y. pa mor gyflym y cewch ymateb ar ôl anfon cais. Mae ymateb cyflym yn golygu bod y cysylltiad yn fwy ymatebol[1].

Wrth drefnu asesiadau, byddwch yn gallu gwasgaru nifer y dysgwyr sy'n gwneud asesiad ar yr un pryd. Drwy leihau nifer yr asesiadau sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd, gallwch leihau'r straen ar gysylltiad eich ysgol â'r rhyngrwyd a lled y band. Hynny yw, os cewch chi'r symptomau uchod neu os ydych chi'n ansicr am gyflwr eich seilwaith, dylech leihau nifer y dysgwyr sy'n gwneud asesiadau ar yr un pryd.

Os byddwch yn parhau i gael y symptomau uchod, hyd yn oed ar ôl lleihau nifer y dysgwyr, ffoniwch Ddesg Gymorth yr Asesiadau a bydd rhywun yn gallu trafod y problemau gyda chi a'ch cynghori o ran y camau nesaf.

## 3.6 Rhestrau gwirio TG


**Cyn cynnal asesiad, sicrhewch fod pob un o'r canlynol wedi'i wneud.**

| Gweithgaredd | Cwblhawyd? Do/Naddo |
|---|---|
| 1. Darllenwch ganllawiau digidol Llywodraeth Cymru i ysgolion os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes. Bydd y wefan hon yn rhoi arweiniad i'ch ysgol ar sut i wirio seilwaith TG eich ysgol a'i gynnal, gwneud y mwyaf o'ch cysylltiad â'r rhyngrwyd, a rheoli'r broses o ddiweddaru meddalwedd a rhaglenni. | |
| 2. Sicrhewch fod dyfeisiau wedi'u gwefru'n llawn, bod porwr modern wedi'i osod, a bod y feddalwedd wedi'i diweddaru cyn cynnal unrhyw asesiadau a drefnwyd. | |
| 3. Sicrhewch fod yr asesiadau wedi'u trefnu. | |
| 4. Lle bo modd, sicrhewch fod yr asesiadau wedi'u trefnu i osgoi cyd-daro â gwersi sy'n defnyddio cynnwys sy'n gyfoeth o gyfryngau, megis ffrydio fideos, gan y gallai hyn effeithio ar y cysylltiad â'r rhyngrwyd. Cofiwch fod modd trefnu asesiadau unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn ysgol. | |

[1] **Noder:** Mae'r prawf cyflymder ar gael fel gwasanaeth am ddim ond ar wefan sy'n cynnwys hysbysebion. Am y rheswm hwn, mae rhwydweithiau ysgol weithiau yn ei rhwystro. Os felly, cysylltwch â'ch darparwr rhyngrwyd.


## 3.7 Mewngofnodi i Hwb

Bydd ysgolion yn defnyddio Hwb – https://hwb.llyw.cymru/ – i fewngofnodi a chael mynediad at wefan yr asesiadau.




I gael gwybod sut i ddod o hyd i enwau defnyddwyr a chyfrineiriau Hwb, gweler y ddolen ganlynol: https://hwb.llyw.cymru/canolfan-cymorth/gwasanaethau-hwb/dechrau-arni/

Ar ôl mewngofnodi, byddwch yn gweld y sgrin ganlynol. I gael mynediad at wefan yr asesiadau, dewiswch ‘Asesiadau personol’. Gellir dod o hyd iddo o dan ‘Dewislen’ wrth frig ochr dde y dudalen neu ar hafan Hwb.



## 3.8 Trefn gwefan yr asesiadau – rheoli defnyddwyr

Mae'r adran hon yn dangos sut i reoli swyddogaethau a chaniatâd o fewn gwefan yr asesiadau.

Y **pennaeth** yw 'perchennog data' yr ysgol, a rhoddir y swyddogaeth 'Gweinyddu' iddo yn awtomatig. Gall pennaeth neilltuo'r swyddogaeth 'Gweinyddu' i ddefnyddwyr ychwanegol. Fodd bynnag, yn yr achosion hynny lle nad oes pennaeth parhaol mewn ysgol, y pennaeth gweithredol neu'r pennaeth dros dro, os oes un wedi'i benodi, fydd perchennog y data, a rhoddir y swyddogaeth 'Gweinyddu' iddo yn awtomatig. Os bydd unrhyw aelod o uwch dîm arwain yr ysgol yn disgwyl cael hawliau mynediad yn awtomatig ond yn methu â chael mynediad i'r system, dylai gysylltu â'r Ddesg Gymorth a fydd yn gallu rhoi'r statws 'perchennog data' iddo a'r hawliau mynediad 'Gweinyddu' sy'n gysylltiedig. O hyn ymlaen, dylid ystyried pob cyfeiriad at 'pennaeth' yn gyfeiriad at bennaeth neu berchennog data arall a nodwyd.

Cyn bwrw ymlaen, rhaid i'r pennaeth dderbyn y cytundeb data (gweler y dudalen nesaf). Ar ôl gwneud hyn, bydd modd neilltuo swyddogaethau gwahanol o fewn gwefan yr asesiadau i staff yr ysgol. Ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, bydd gofyn i'r pennaeth dderbyn y cytundeb data eto, a bydd cyfle i wirio'r swyddogaethau a roddwyd i staff.


Mae pedair swyddogaeth wahanol yn perthyn i wefan yr asesiadau, a chânt eu hamlinellu yn y tabl isod:

| Swyddogaeth | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gweinyddu** | Defnyddiwr sy'n gallu trefnu a hwyluso asesiad a gweld adborth ac adroddiadau yr ysgol gyfan. Yn ogystal â hyn, defnyddiwr sy'n gallu newid swyddogaethau a chaniatâd mynediad aelodau eraill o'r staff.<br><br>(Ystyr 'defnyddiwr' yw unrhyw aelod o'r staff sydd â mynediad at wefan yr asesiadau.) |
| **Hwyluso a dadansoddi** | Defnyddiwr sy'n gallu trefnu a hwyluso asesiad a gweld adborth ac adroddiadau. |
| **Hwyluso** | Defnyddiwr sy'n gallu trefnu a hwyluso asesiadau ond nad yw'n gallu gweld adborth. |
| **Dim mynediad** | Defnyddiwr heb fynediad at yr asesiadau na'r adborth. |

O ran y swyddogaethau 'Hwyluso a dadansoddi' a 'Hwyluso', gall mynediad gael ei gyfyngu i grwpiau blwyddyn neu ddosbarthiadau penodol neu ei roi ar gyfer yr ysgol gyfan.

**Dylid sicrhau y rhoddir y swyddogaeth 'Gweinyddu' dim ond i'r bobl hynny mae angen iddynt gael mynediad at holl swyddogaethau'r system. Argymhellir eich bod yn neilltuo'r swyddogaeth 'Gweinyddu' yn gynnil, a dim ond i'r aelodau hynny o staff y mae'n hanfodol iddynt gael y lefel hon o fynediad.**

Pan fydd y pennaeth yn mewngofnodi i Hwb ac yn mynd i wefan yr asesiadau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, bydd yn gweld y neges ar y sgrinlun isod. Darllenwch y neges hon a dewis 'Derbyn'.




Ar ôl ei derbyn, ni fydd y neges hon yn ymddangos eto tan y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, bydd staff yn cael eu hatgoffa ynghylch cyfrinachedd a diogelwch data.

Ni fydd staff yn gallu cael mynediad at y wefan nes i'r pennaeth dderbyn y cytundeb.


I osod neu newid swyddogaethau'r staff, dewiswch 'Rheoli defnyddwyr'.

Gall penaethiaid ddirprwyo'r dyletswyddau hyn drwy roi'r swyddogaeth 'Gweinyddu' i aelod arall o'r staff.




Ar y sgrin ganlynol, fe welwch restr o staff yr ysgol.

- Gallwch drefnu'r colofnau a hidlo'r defnyddwyr yn ôl swyddogaeth, grŵp blwyddyn neu ddosbarth.
- I newid swyddogaethau a chaniatâd mynediad pob aelod o'r staff, dewiswch 'Newid' ar yr ochr dde.
- I ddechrau, bydd pawb â'r swyddogaeth 'Dim mynediad', a dim ond i'r 'Hafan' a'r adran 'Cymorth' y byddant yn gallu mynd, nes iddynt gael swyddogaeth arall.



Rheoli defnyddwyr

◉ Grŵp blwyddyn ○ Dosbarth


Pob swyddogaeth | Pob un | Pob un | Chwilio

| ☐ | Enw ↑ | Rhif adnabod Hwb | Swyddogaeth | Mynediad | |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | Jemma Avery | AveryJ91975@hwbcymru.net | Hwyluso a dadansoddi | | Newid |
| ☐ | James Black | BlackJ11980@hwbcymru.net | Hwyluso | | Newid |
| ☐ | Abby Clark | ClarkA91978@hwbcymru.net | Hwyluso | Ysgol gyfan | Newid |
| ☐ | Abbie Clarkson | ClarksonA11977@hwbcymru.net | Dim mynediad | | Newid |
| ☐ | Joseph Davidson | DavidsonJ61976@hwbcymru.net | Hwyluso a dadansoddi | | Newid |


Ar y sgrin ganlynol, dewiswch y swyddogaeth, y grwpiau blwyddyn neu'r dosbarthiadau y dymunwch, ac yna dewiswch 'Cadw'.




Gellir newid manylion sawl aelod o staff drwy ddewis y blwch ticio wrth ymyl eu henwau a dewis 'Newid y rhai a ddewiswyd'.



Ar y sgrin ganlynol, dewiswch y swyddogaeth, y grwpiau blwyddyn neu'r dosbarthiadau y dymunwch, a dewiswch 'Cadw'.





## 3.9 Trefnu a newid asesiadau

Rhaid trefnu asesiadau ar gyfer diwrnod ysgol penodol, a **rhaid gwneud hynny o leiaf y diwrnod cyn cynnal yr asesiad.** Gellir trefnu asesiadau o flaen llaw, hyd at 7p.m. y diwrnod cyn yr asesiad. **Ni ellir trefnu asesiad ar gyfer grŵp na dosbarth ar ddiwrnod yr asesiad.**


**Pwysig: peidiwch ag ymadael â'r wefan na'i hadnewyddu wrth drefnu asesiad.**

I drefnu asesiad, dewiswch 'Asesiadau' ac yna 'Trefnu asesiad'.



- Bydd y sgrin ‘Asesiadau’ yn caniatáu ichi weld yr asesiadau sydd eisoes wedi’u trefnu a’r asesiadau a gwblhawyd drwy chwilio am y math o asesiad, y dyddiad, y grŵp blwyddyn, y dosbarth a’r statws. Os byddwch yn dewis ‘Chwilio’ heb hidlo’r wybodaeth, bydd y system yn dangos pob asesiad a drefnwyd ac a gwblhawyd ar gyfer yr ysgol gyfan.

- Ar ôl dewis ‘Trefnu asesiad’, ar y sgrin nesaf, dewiswch y math o asesiad, yr iaith a’r dyddiad a ddymunir, ac yna dewiswch ‘Ychwanegu dysgwyr’.




Ar y sgrin nesaf, dewiswch y grŵp (neu’r grwpiau) blwyddyn a’r dosbarth(iadau) yr hoffech drefnu asesiad ar eu cyfer, a dewis ‘Chwilio’.

- **Argymhellir eich bod yn trefnu asesiadau’r dysgwyr fesul dosbarth yn hytrach na fesul grŵp blwyddyn cyfan. Gweler adran 3.11 isod am fanylion pellach.**

- Bydd staff yn gallu trefnu asesiad dim ond ar gyfer y grwpiau blwyddyn neu’r dosbarthiadau hynny y mae’r pennaeth, neu’r person sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig, wedi rhoi caniatâd iddynt.








- Ar ôl dewis ‘Chwilio’, gallwch ddethol dysgwyr unigol ar y sgrin sy’n dilyn gan ddefnyddio’r blychau ticio wrth ymyl eu henwau.

- Gallwch drefnu’r colofnau hefyd i hwyluso’r broses o ganfod dysgwyr. Gallwch hefyd ddethol pob dysgwr ar y rhestr drwy ddewis y blwch ticio bach sydd ar frig y rhestr.

- Ar ôl dethol y dysgwyr, dewiswch ‘Ychwanegu dysgwyr’. Yna bydd y dysgwyr hyn yn cael eu cynnwys yn yr asesiad a drefnwyd.




Ar ôl ichi ychwanegu’r dysgwyr at yr asesiad, gallwch wneud y canlynol ar y sgrin sy’n dilyn:




1. Cadarnhau’r amserlen drwy ddewis ‘Trefnu’r asesiad hwn’.
2. Ychwanegu dysgwyr o grŵp blwyddyn neu ddosbarth arall neu ddysgwyr ychwanegol o’r un grŵp blwyddyn neu ddosbarth at yr asesiad drwy

ddewis ‘Ychwanegu dysgwyr’. Os ydych yn trefnu yn ôl dosbarth, bydd enw’r dosbarth sy’n ymddangos ar y sgrin hon yn ymddangos ar sgrin yr asesiadau sydd wedi’u trefnu unwaith y bydd y gwaith trefnu wedi’i gadarnhau.


3. Newid ‘Anhawster y cwestiwn cyntaf’* a’r ‘Opsiynau hygyrchedd’** ar gyfer dysgwyr unigol.
4. Dileu dysgwyr unigol os ydynt wedi’u dewis ar ddamwain drwy ddewis ‘Dileu dysgwr’ ar yr ochr dde.
5. Dileu grwpiau o ddysgwyr drwy ddewis y blwch ticio wrth ymyl eu henwau a dewis ‘Dileu’r dysgwyr a ddewiswyd’
6. Canslo’r asesiad drwy ddewis ‘Canslo’.

Pan fyddwch yn dewis ‘Trefnu’r asesiad hwn’, bydd naidlen yn ymddangos i’ch atgoffa i ddilyn y rhestr wirio o flaen llaw ar gyfer y pwnc dan sylw. Pwyswch ‘Cau’ i gau’r naidlen. Byddwch wedyn yn gweld eicon llwytho a bydd eich asesiad yn cael ei drefnu. Gallwch wirio manylion yr asesiad ar y sgrin nesaf drwy ddewis ‘Gweld’.


* Mae’r blwch ‘Anhawster y cwestiwn cyntaf’ yn caniatáu ichi addasu anhawster y lefel gychwynnol ar gyfer dysgwyr sy’n perfformio’n sylweddol islaw lefel eu blwyddyn cwricwlwm. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio’r blwch hwn.


** Ceir cyngor am yr opsiynau hygyrchedd ar dudalen 71 – adran 6.1 ac adran 6.2.

- I weld neu newid asesiad a drefnwyd, dewiswch ‘Chwilio’ o dan ‘Asesiadau wedi’u trefnu’.




- Dewiswch ‘Gweld’ ac yna ‘Newid’ (y sgrin islaw) i wneud y newidiadau (e.e. i ychwanegu mwy o ddysgwyr neu i newid y dyddiad). Mae’r golofn Dosbarth yn dangos y dosbarth a ddewiswyd ar y sgrin trefnu neu’n dangos ‘cymysg’ os na ddewiswyd dosbarth.




I gadarnhau'r newidiadau, dewiswch 'Trefnu'r asesiad hwn'.
I ddileu asesiad, dewiswch 'Dileu'r asesiad hwn'.
I ganslo unrhyw newidiadau, dewiswch 'Canslo'.


Ar ôl iddynt gael eu trefnu, bydd angen 'Rhyddhau' yr asesiadau yn y sgrin 'Hwyluso', sydd ar gael o sgrin yr 'Hafan' neu'r sgrin 'Asesiadau' – rhaid gwneud hynny er mwyn i'r dysgwyr allu cael mynediad atynt (gweler adran 4.1, 'Hwyluso asesiad personol', ar dudalen 34).

## 3.10 Trefnu asesiad ar y diwrnod


Dyma nodwedd sy'n caniatáu trefnu asesiad ar gyfer **dysgwr unigol neu nifer fechan o ddysgwyr unigol** o 01:00a.m. ar y diwrnod y bwriedir cynnal yr asesiad. Mae hyn yn golygu bod modd i ysgolion ymateb i newidiadau munud olaf, er enghraifft os bydd dysgwr yn bresennol yn annisgwyl, neu os bydd yr amserlen yn newid ar y funud olaf.

**Noder: Nid oes modd trefnu asesiad ar gyfer dosbarth na grŵp o ddysgwyr ar yr un diwrnod.**


- I drefnu asesiad ar gyfer y diwrnod hwnnw, ewch i 'Asesiadau', ac yna 'Trefnu asesiad ar gyfer heddiw (un dysgwr)'.





- Ar ôl gwneud hynny, ar y sgrin nesaf, dewiswch y math priodol o asesiad a'r dewis iaith, ac yna pwyswch 'Ychwanegu dysgwr'.





- Ar y sgrin nesaf, dewiswch grŵp blwyddyn a dosbarth y dysgwr y bwriedir yr asesiad ar ei gyfer, a phwyso 'Chwilio'.




- Bydd staff yn gallu trefnu asesiad dim ond ar gyfer dysgwyr yn y grwpiau blwyddyn neu'r dosbarthiadau hynny y mae'r pennaeth, neu'r person sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig, wedi rhoi caniatâd iddynt.
- Ar ôl pwyso 'Chwilio', gallwch ddethol y dysgwr penodol ar y sgrin nesaf, drwy glicio ar y botwm 'Ychwanegu dysgwr' sydd nesaf at ei enw. Caiff y dysgwr ei gynnwys wedyn yn yr asesiad a drefnwyd.





- Ar ôl ychwanegu'r dysgwr at yr asesiad, ar y sgrin sy'n dilyn, bydd modd:
  - cadarnhau drwy glicio ar 'Trefnu'r asesiad hwn'
  - addasu 'Anhawster y cwestiwn cyntaf' a'r 'Opsiynau hygyrchedd' ar gyfer dysgwyr penodol
  - tynnu enw'r dysgwr oddi ar drefnlen yr asesiad
  - canslo'r asesiad drwy ddewis 'Canslo'.





- I gael rhagor o wybodaeth am newid asesiadau'r dysgwyr, ewch i [adran 3.9 'Trefnu a newid asesiadau'](#).


- Unwaith y bydd 'Trefnu'r asesiad hwn' wedi'i glicio, bydd y dudalen wybodaeth isod yn ymddangos, sy'n cynnwys pwyntiau pwysig i'w cadw mewn cof, gan gynnwys dolen gyswllt at y rhestr wirio cyn cynnal asesiad a'r dudalen Cymorth. Darllenwch yr wybodaeth yn ofalus cyn clicio'r botwm 'Cau'.




- **PWYSIG: Ar ôl clicio 'Cau', <u>peidiwch ag adnewyddu'r dudalen na cheisio dychwelyd at y dudalen flaenorol</u>. Arhoswch i'r dudalen nesaf lwytho'n awtomatig, a bydd y neges isod yn ymddangos wrth ichi aros:**




- Bydd stribed las yn ymddangos ar frig y sgrin i roi gwybod bod yr asesiad wedi'i drefnu'n llwyddiannus.





- Os nad yw'r asesiad ar gael i'w hwyluso eto, adnewyddwch y sgrin. Gall gymryd

rhywfaint o amser i brosesu'r cais. Fel arall, dylai'r asesiad fod ar gael i'w hwyluso o'r dudalen Hafan, yn yr un modd ag asesiadau a drefnwyd yn y dull arferol.

- Dim ond pan fydd y dysgwyr dan oruchwyliaeth y dylid rhyddhau'r asesiadau iddynt.
- Os bydd angen trefnu asesiad ar gyfer mwy nag un dysgwr ar yr un diwrnod, gallwch ailadrodd yr un broses.

Mae athrawon bellach yn gallu rhyddhau asesiadau i ddysgwyr drwy ddewis 'Rhyddhau' ar ochr dde y sgrin.




## 3.11 Arweiniad ar ryddhau asesiadau i ddysgwyr fesul dosbarth


Dim ond pan fydd y dysgwyr dan oruchwyliaeth y dylid rhyddhau'r asesiadau iddynt.

Os bydd mwy nag un dosbarth mewn grŵp blwyddyn, argymhellir trefnu'r asesiadau fesul dosbarth yn hytrach na fesul grŵp blwyddyn.

Os trefnwyd asesiadau ar gyfer grŵp blwyddyn cyfan ar ddiwrnod penodol, nid oes modd i'r staff ryddhau asesiadau fesul dosbarth yn y sgrin 'Hwyluso'. I'w rhyddhau fesul dysgwr, byddai angen pori'r grŵp blwyddyn cyfan a dewis pob dysgwr sy'n bresennol yn ei dro, ac nid yw hynny'n ymarferol.

Er mwyn gallu rhyddhau asesiadau fesul dosbarth, bydd angen trefnu ei amserlen asesu ei hun ar bob dosbarth. **Peidiwch** â dewis pob dosbarth yn ei dro a'i ychwanegu at yr un amserlen, gan y byddant i gyd yn cael eu trin fel un grŵp unwaith y bydd pob dysgwr wedi'i ychwanegu, ac ni fydd modd hidlo fesul grŵp dosbarth ar y sgrin 'Hwyluso' (fel y nodir uchod).

Gweler y sgrin enghreifftiol isod:





Yn yr enghraifft hon, mae dau ddosbarth (10A-ACyf a 10A-Dae) ym Mlwyddyn 9. Mae'r rhes uchaf yn dangos bod Blwyddyn 9 wedi'i threfnu yn un grŵp ar ôl i ddosbarthiadau 10A-ACyf a 10A-Dae gael eu hychwanegu at yr un amserlen. Mae'r ddwy res nesaf yn dangos y dosbarthiadau wedi'u nodi ar wahân gan fod y ddau ddosbarth wedi'u trefnu fel grwpiau ar wahân.

Drwy ddewis ‘Hwyluso’ ar gyfer y grŵp Blwyddyn 9 cyfan, bydd y sgrin isod yn ymddangos:





Nid oes dim yn y sgrin ‘Hwyluso’ i alluogi hidlo a rhyddhau asesiadau fesul dosbarth, felly argymhellwn nad ydych yn trefnu asesiadau fesul grŵp blwyddyn.

Drwy glicio ar yr ‘Hwyluso’ a oedd yn yr ail res, dyma’r sgrin a fyddai wedi ymddangos:




Mae’r wybodaeth a geir yn y pennyn yn cadarnhau mai Dosbarth 10A-Dae yw’r grŵp hwn o ddysgwyr. Gellir rhyddhau’r asesiadau i’r dosbarth cyfan drwy ddewis y blwch bach ar frig y rhestr o ddysgwyr a dewis y botwm ‘Rhyddhau’r rhai a ddewiswyd’ pan fydd yn ymddangos.



Os bydd bron pawb yn y dosbarth yn bresennol, y ffordd symlaf o ryddhau i bawb ond un (y dysgwr absennol) yw defnyddio'r blwch bach ar frig y rhestr i ddewis pawb yn y dosbarth ac yna dad-ddewis un neu ragor o'r dysgwyr unigol cyn pwyso'r botwm 'Rhyddhau'r rhai a ddewiswyd'.

Gellir dewis dysgwyr unigol (gan ddefnyddio'r blwch bach wrth ymyl eu henwau) i ryddhau asesiadau i grŵp dethol o ddysgwyr, neu gellir rhyddhau'r asesiad i ddysgwyr unigol gan ddefnyddio'r botymau 'Rhyddhau', ond gyda'r naill opsiwn a'r llall, mae angen pwyso llawer mwy o fotymau.

## 3.12 Dewisiadau iaith

Wrth drefnu'r Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol) a Rhifedd (Rhesymu), rhaid i'r staff osod iaith yr asesiad i'r dysgwyr: Cymraeg neu Saesneg. Bydd fersiwn y cwestiwn yn yr iaith arall ar gael ar unrhyw adeg, mewn naidlen. Bydd dysgwyr yn gallu gweld y cwestiwn yn yr iaith arall drwy glicio ar eicon 'y byd' sydd ar waelod y sgrin. Bydd y fersiwn yn yr iaith arall yn ymddangos fel delwedd ac felly ni fydd modd nodi'r ateb ar y naidlen. Dylai'r dysgwyr gau'r naidlen a nodi eu hateb yn sgrin y cwestiwn gwreiddiol.

**Noder:** Nid oes modd newid yr iaith unwaith y bydd asesiad wedi dechrau. Rhaid canslo'r asesiad a'i drefnu eto. Bydd modd gweld pob cwestiwn yn yr iaith arall gan ddefnyddio eicon 'y byd'.

Wrth drefnu Asesiadau Personol Darllen, rhaid i'r staff osod iaith yr asesiad i'r dysgwyr – Cymraeg neu Saesneg. Mae Asesiadau personol cenedlaethol ar gyfer Darllen a Rhifedd: llawlyfr gweinyddu yn nodi'r gofynion statudol o ran pa ddysgwyr sydd i fod i wneud yr asesiadau darllen yn Gymraeg, yn Saesneg, neu yn y ddwy iaith. Felly, gan fod y testunau a'r cwestiynau yn wahanol yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg, nid oes modd i'r dysgwyr weld yr iaith arall.

Ar gyfer pob un asesiad, sicrhewch **nad** yw'r nodwedd 'Cyfieithu' wedi'i galluogi ar borwyr gwe y dysgwyr. Os bydd y nodwedd yn cael ei defnyddio i gyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, gallai amharu ar sut mae'r asesiadau yn gweithio. Mae'r asesiadau Rhifedd i gyd wedi'u cyfieithu eisoes, gyda'r iaith arall ar gael drwy glicio ar eicon bach 'y byd'. Mae'r asesiadau Darllen yn benodol i'r naill iaith a'r llall, ac felly nid oes modd cyfnewid iaith yn ystod y rheini. Mae'n bosibl y bydd y dysgwyr yn cael cyfieithiadau gwallus yn ôl os byddwch yn caniatáu iddynt ddefnyddio'r nodwedd ar eu porwyr gwe.

## 3.13 Asesiadau ymgyfarwyddo

Mae'r asesiadau ymgyfarwyddo ar gael i'r staff eu defnyddio gyda'r dysgwyr cyn iddynt wneud asesiad byw. Maent ar gael i athrawon, wedi'u grwpio yn ôl pwnc, o dan 'Asesiadau ymgyfarwyddo'.

Tri asesiad sydd ar gael ym mhob pwnc: cynradd Blynyddoedd 2–3, cynradd Blynyddoedd 4–6 ac uwchradd Blynyddoedd 7–9. Mae pob un o'r asesiadau hyn ar gael fel fersiwn Braille hefyd i'r dysgwyr hynny a fydd yn gwneud yr asesiadau personol gan ddefnyddio'r fersiwn sy'n cyfateb i Braille (gweler yr wybodaeth am y fersiynau wedi'u haddasu ar dudalen 71).

Mae'r dysgwyr yn gallu dod o hyd i'r asesiadau ymgyfarwyddo drwy fewngofnodi i Hwb, dewis y ddolen 'Asesiadau personol' a dewis 'Asesiadau ymgyfarwyddo'.

Bydd asesiad ymgyfarwyddo yn dechrau gyda'r sgrin isod:




Dylid rhoi gwybod i ddysgwyr iau eu bod yn gwneud asesiad ymgyfarwyddo cyn iddynt roi cynnig ar y cwestiwn cyntaf, a dylid darllen yr wybodaeth uchod ar eu cyfer. Dylid hefyd dynnu eu sylw at y ffaith mai gwyrdd golau yw cynllun lliw yr asesiadau ymgyfarwyddo a glas yw cynllun lliw yr asesiadau 'byw'.

Mae'r asesiadau ymgyfarwyddo yn cynnwys enghreifftiau o'r mathau o gwestiynau sy'n codi yn yr asesiadau personol. Dyma sut mae nifer y cwestiynau mewn asesiad ymgyfarwyddo yn amrywio yn ôl pwnc:

| Pwnc | Nifer y cwestiynau Blwyddyn 2–3 | Nifer y cwestiynau Blwyddyn 4–6 | Nifer y cwestiynau Blwyddyn 7–9 |
|---|---|---|---|
| Darllen Cymraeg | 12 | 12 | 8 |
| Darllen Saesneg | 12 | 12 | 8 |
| Rhifedd Gweithdrefnol | 8 | 8 | 8 |
| Rhifedd Rhesymu | 4 | 4 | 3 |

**Mae'n hollbwysig eich bod chi'n treulio amser yn helpu'r dysgwyr i ddod i arfer â'r mathau hyn o gwestiynau er mwyn i'r asesiad byw roi'r wybodaeth orau am eu sgiliau.**

**Yn yr Asesiadau Personol Darllen, mae'n arbennig o bwysig eich bod yn pwysleisio wrth y dysgwyr nad yw'r cwestiynau cwblhau brawddegau na'r cwestiynau unigol yn gysylltiedig ag unrhyw destun.**

**Mae'n fwyfwy pwysig ichi ddefnyddio'r asesiadau ymgyfarwyddo ar gyfer yr Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu), fel bod y dysgwyr yn dod i ddeall sut i ddefnyddio'r sain a'r mathau gwahanol o gwestiynau sy'n codi.**

Yn yr Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu), mae cynnwys clyweledol, felly **rhaid i'r dysgwyr gael clustffonau wrth law** ac wedi'u cysylltu â'r ddyfais er mwyn iddynt allu clywed yr holl gynnwys. Rhaid bod **papur a phensil** ar gael i bob dysgwr hefyd yn ystod yr asesiad. Dylai **cyfrifiannell** fod ar gael i ddysgwyr Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3, ynghyd ag offer arall, gan gynnwys trinolion, os ydynt yn eu defnyddio yn y dosbarth fel arfer. Dylai **cyfrifiannell** fod ar gael i bob dysgwr o Flwyddyn 4 ymlaen, ac mae croeso iddynt ddefnyddio offer arall, hefyd, gan gynnwys trinolion, os yw hynny'n briodol ym marn yr athro/athrawes. (Noder: NI

chaniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr asesiadau Rhifedd (Gweithdrefnol) gan ddysgwyr unrhyw flwyddyn.)

**Rhaid** i ddysgwyr **ddefnyddio asesiad ymgyfarwyddo Rhifedd (Rhesymu) o flaen llaw er mwyn cael profiad o'r cwestiynau sydd â chliwiau a dod i ddeall** sut maent yn gweithio – dylid eu hannog i roi cynnig ar bob cwestiwn ac i ddefnyddio'r cliwiau i'w helpu **(mae gwybodaeth bellach am y cliwiau ar gael isod – gw. tudalen 40).** Mae croeso i ddysgwyr ddefnyddio'r asesiadau ymgyfarwyddo fwy nag unwaith er mwyn arbrofi gydag atebion cywir ac anghywir i'r cwestiynau sydd â chliwiau.

**Wrth ddefnyddio'r asesiadau ymgyfarwyddo Rhifedd (Rhesymu) gyda'u dosbarth am y tro cyntaf, dylai athrawon arwain y dysgwyr drwyddynt fel dosbarth/grŵp i sicrhau eu bod yn deall sut mae'r cliwiau yn edrych**. O adael y dysgwyr i weithio drwy'r asesiadau ymgyfarwyddo eu hunain, efallai na fyddant yn deall y cliwiau yn iawn.

Os oes cliwiau ar gael, tynnir sylw'r dysgwyr atynt drwy flwch uwchben y cwestiwn sydd i'w weld ar y sgrin:

| Mae cliwiau gan y cwestiwn hwn. |
|---|

Ar gyfer yr Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu), bydd asesiadau ymgyfarwyddo yn caniatáu i ddysgwyr wneud y canlynol:

- deall y mathau o gwestiynau sy'n codi yn yr asesiadau, gan gynnwys y cliwiau
- gwirio bod dyfeisiau a chlustffonau yn gweithio'n iawn
- sicrhau bod y cynnwys clyweledol yn gweithio a gosod y lefelau sain.

Mae modd cynnal asesiad ymgyfarwyddo ar unrhyw adeg. Dylid eu cynnal ychydig cyn cynnal asesiad personol (ond cynghorir na ddylid eu defnyddio yn yr un wers oherwydd prinder amser a rhag ofn i'r dysgwyr flino).

Caiff y cwestiynau hyn eu cyflwyno mewn trefn benodol fel bod modd i'r staff fynd â'r dosbarth cyfan drwy'r asesiad ymgyfarwyddo, e.e. drwy ddarllen y cwestiwn ar y cyd a thrafod yr ateb a sut i ymateb.

Yn ystod yr asesiadau ymgyfarwyddo, bydd y dysgwyr yn gallu newid lliw'r cefndir a'r gosodiadau cyferbyniad, gan roi cyfle iddynt arbrofi gyda'r dewisiadau sydd ar gael iddynt a dod o hyd i'r un mwyaf addas ar eu cyfer. Bydd hyn hefyd yn caniatáu trafodaeth ystyrlon â'r athro/athrawes.

## 3.14 Cynnwys clyweledol – Rhifedd (Rhesymu) yn unig

Ar gyfer yr Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu), bydd y setiau o gwestiynau sydd ar sail deunydd ysgogi (gweler tudalen 41) yn cael eu cyflwyno tua diwedd yr asesiad. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o dudalennau gwybodaeth, gan gynnwys ffeiliau clyweledol, ac yna cwestiynau cofnodi rhif. Rhaid i'r dysgwyr allu gweld a chlywed y darnau clyweledol i ateb y cwestiynau. I wrando ar y ffeil glyweledol, rhaid cael set o glustffonau wedi'i chysylltu â'r ddyfais.

Noder y gall hyd at dri rheolydd sain annibynnol effeithio ar y sain y mae dysgwr yn ei glywed, gan ddibynnu ar yr offer a ddefnyddir:

- y rheolydd sain/y mudydd yn y chwaraewr cyfryngau/ym meddalwedd y ddyfais
- rheolydd sain ar galedwedd y ddyfais gyfrifiadurol
- rheolydd sain ar galedwedd y clustffonau.

**Argymhellir fod dysgwyr yn gwirio’r clustffonau a’r sain trwy’r asesiadau ymgyfarwyddo cyn dechrau asesiad byw.**

Pan ddaw dysgwr ar draws cwestiwn sy’n cynnwys ffeil glyweledol, bydd y sain yn chwarae’n awtomatig. Bydd cyfle i chwarae’r ffeil glyweledol fwy nag unwaith ar yr un sgrin, os oes angen, ond unwaith y bydd y dysgwr wedi symud ymlaen at sgrin y cwestiynau, ni fydd modd chwarae’r ffeil glyweledol eto.

I’r dysgwyr hynny sydd â nam ar eu clyw neu sydd angen cymorth unigol, mae sgriptiau ar ffurf PDF ar gael o gynnwys y ffeil glyweledol, gan gynnwys yr asesiadau ymgyfarwyddo (gweler tudalen 71). Er mwyn i’r athrawon allu dod o hyd i’r sgript PDF cywir i’w ddefnyddio, mae teitl unigol y deunydd ysgogi ar ben y dudalen wybodaeth a phob sleid, ar ochr dde y sgrin.

Mae’r dysgwyr yn gallu gwrando ar y cynnwys clyweledol yn yr iaith arall drwy glicio ar eicon bach ‘y byd’ ar waelod y sgrîn. Yn wahanol i’r sain yn y prif asesiad, ni fydd y ffeil glyweledol ar gyfer yr ail iaith yn chwarae yn awtomatig pan fydd y ffenestr arall yn agor, ac felly bydd angen i ddysgwyr wthio’r botwm chwarae ▶ i glywed y sain yn yr iaith arall.

## 3.15 Rhestrau gwirio ar gyfer yr asesiadau

Mae'r rhestrau gwirio hyn yn cynnwys y prif bwyntiau a fydd yn caniatáu i aelodau o staff gynnal asesiad personol i'r dysgwyr. Gallwch lawrlwytho ac argraffu'r rhestrau gwirio hyn o'r adran 'Cymorth' ar wefan yr asesiadau.

### 3.15.1 Rhestr wirio i'r staff

Rhaid i'r staff sicrhau bod y camau gweithredu hyn wedi'u cwblhau **cyn** cynnal asesiad:

| Camau gweithredu i'r staff – cyn asesiad | ✓ |
|---|---|
| **1. Mae'r asesiadau ar gyfer grwpiau neu ddosbarthiadau wedi'u trefnu erbyn 7 p.m. o leiaf y diwrnod cyn y bwriedir eu cynnal. (Os oes angen, mae modd trefnu asesiad ychwanegol ar gyfer dysgwr unigol ar y diwrnod y cynhelir yr asesiad.)** | |
| **2. Mae'r dysgwyr wedi gwneud asesiad ymgyfarwyddo o flaen llaw i weld y mathau o gwestiynau sy'n codi.<br>Mae dysgwyr yn gallu dod o hyd i'r asesiadau ymgyfarwyddo drwy fewngofnodi i Hwb, dewis y ddolen 'Asesiadau personol' a dewis 'Asesiadau ymgyfarwyddo'.** | |
| **3. Mae'r dysgwyr yn deall prif nodweddion yr asesiadau personol. Mae angen i ddysgwyr ddeall nad oes modd iddynt fynd yn ôl ar ôl ateb cwestiwn, ac y bydd anhawster y cwestiynau (a'r testunau yn yr Asesiadau Personol Darllen) yn amrywio gan ddibynnu ar eu hatebion. Os yw'r dysgwyr yn cael cwestiynau 'anodd', mae'n golygu eu bod nhw'n gwneud yn dda (ac yn cael eu herio).** | |
| **4. Mae gan gyfrifiaduron a dyfeisiau gysylltiad dibynadwy â'r rhyngrwyd.** | |
| **5. Mae'r ystafell ddosbarth wedi'i gosod i alluogi dysgwyr i weithio'n annibynnol ar eu dyfeisiau.** | |
| **6. Os yw gliniaduron a thabledi/llechi i'w defnyddio, maent wedi'u gwefru ac yn barod i'w defnyddio ar gyfer yr asesiad.** | |
| **7. Mae'r asesiadau wedi'u rhyddhau drwy wefan yr asesiadau personol cyn i'r dysgwyr fewngofnodi. Ni ellir gweld yr asesiadau nes iddynt gael eu rhyddhau. Dylai fod rhywun yn goruchwylio'r dysgwyr adeg rhyddhau'r asesiadau.** | |
| **8. Mae manylion mewngofnodi i Hwb y dysgwyr wrth law, *ac* mae help ar gael iddynt fewngofnodi os bydd angen.** | |
| **9. Mae papur a phen/pensil ar gael i'r dysgwyr ar gyfer unrhyw waith cyfrifo bras.** | |
| **10. Ni ddylid defnyddio cyfrifianellau ac offer arall ar gyfer yr Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol).** | |
| **11. Ar gyfer Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu), rhaid i'r dysgwyr gael clustffonau a chyfrifiannell. (O ran blynyddoedd 2 a 3, dim ond os ydynt yn defnyddio cyfrifiannell yn y dosbarth fel arfer y mae angen iddynt gael un). Ar gyfer Rhifedd (Rhesymu), mae croeso i bob dysgwr ddefnyddio offer arall, gan gynnwys trinolion, os yw'r athro/athrawes yn barnu bod hynny'n briodol.** | |
| **12. Rydych chi wedi paratoi gweithgaredd arall i'r dysgwyr hynny sy'n gorffen yn gynnar.** | |

Rhaid i'r staff sicrhau bod y camau gweithredu hyn yn cael eu cwblhau **yn ystod** asesiad:

| **Camau gweithredu i staff – yn ystod asesiad** | ✓ |
|---|---|
| **1. Atgoffwch y dysgwyr bod ganddynt ddigon o amser i ateb a gwirio eu hatebion, ond ni fyddant yn gallu mynd yn ôl ar ôl symud ymlaen at y cwestiwn nesaf. Atgoffwch y dysgwyr eu bod yn gwneud yn dda os ydynt yn cael cwestiynau 'anodd' – os nad ydynt yn gallu eu hateb, dylent symud ymlaen at y cwestiwn nesaf. Sicrhewch fod y dysgwyr yn bwrw ymlaen drwy'r cwestiynau ac yn symud ymlaen os nad ydynt yn gwybod yr ateb i gwestiwn penodol.** | |
| **2. Ar gyfer pob un asesiad, sicrhewch nad yw'r nodwedd 'Cyfieithu' wedi'i galluogi ar borwyr gwe y dysgwyr. Os bydd y nodwedd yn cael ei defnyddio i gyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, gallai amharu ar sut mae'r asesiadau yn gweithio, a gall roi cyfieithiadau gwallus i'r dysgwyr. Yn yr asesiadau Darllen, dim ond yn iaith yr asesiad y dylid cael y testunau a'r cwestiynau. Yn yr asesiadau Rhifedd, mae'r dysgwyr yn gallu clicio ar eicon bach 'y byd' i newid yn ôl ac ymlaen rhwng y ddwy iaith.** | |
| **3. Sicrhewch fod y dysgwyr yn gweithio'n onest ac yn annibynnol.** | |
| **4. Ar gyfer yr Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol), sicrhewch nad oes neb yn defnyddio cyfrifiannell nac offer arall (ac eithrio papur ar gyfer gwaith cyfrifo bras)**. | |
| **5. Yn ystod yr Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol) a Rhifedd (Rhesymu), mae'r dysgwyr yn gallu cael cymorth i ddarllen cynnwys cwestiwn, os oes angen, ond nid ydynt yn gallu cael cymorth gyda'r cyfrifo na'r dull.** | |
| **6. Ar gyfer yr Asesiadau Personol Darllen, ni ddylid darllen y testunau na'r cwestiynau i'r dysgwyr. Sicrhewch nad yw'r dysgwyr yn defnyddio'r nodwedd 'darllen yn uchel' ar eu porwr yn ystod yr asesiad hwn.** | |
| **7. Ar gyfer yr Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu), gwiriwch fod:**<br>• **y dysgwyr wedi cysylltu eu clustffonau â'u dyfais yn barod am y cynnwys clyweledol, a'u bod yn gallu addasu lefel y sain ar y ddyfais.**<br>• **cyfrifiannell, pensil a phapur gan bob dysgwr. (Dim ond os yw dysgwyr Blynyddoedd 2 a 3 fel arfer yn defnyddio cyfrifiannell yn y dosbarth y bydd angen un arnynt.) Os yw'r athro/athrawes yn barnu ei fod yn briodol, mae croeso i'r dysgwyr ddefnyddio offer arall, gan gynnwys trinolion.** | |
| **8. Os bydd unrhyw darfu neu os bydd angen i ddysgwyr gymryd egwyl, gellir oedi'r asesiadau a'u hailddechrau. Dylid atgoffa'r dysgwyr bod y system yn cadw'r atebion yn awtomatig unwaith y cânt eu cyflwyno, ac felly ni fyddant yn colli atebion os bydd unrhyw darfu neu os bydd rhaid mewngofnodi o'r newydd.** | |
| **9. Rhaid cwblhau'r asesiad ar yr un diwrnod ag y'i dechreuwyd. Rhaid canslo unrhyw asesiad anorffenedig, neu bydd yn cael ei gyflwyno i'r system yn awtomatig am 5p.m. ar y diwrnod y trefnwyd yr asesiad ar ei gyfer.** | |
| **10. Caniateir canslo asesiad os oes angen, a'i aildrefnu ar gyfer diwrnod gwahanol.** | |

### 3.15.2 Rhestr wirio i'r dysgwyr

Dylai'r staff sicrhau bod y dysgwyr yn gwneud asesiad ymgyfarwyddo **cyn** asesiad byw i sicrhau eu bod yn deall y prif nodweddion o flaen llaw. Argymhellir fod staff hefyd yn mynd drwy'r rhestr wirio isod gyda'r dysgwyr o flaen llaw.

| Cyngor i staff ei rannu â'r dysgwyr – cyn yr asesiad | ✓ |
|---|---|
| **1. I ddechrau, mewngofnodwch i Hwb a dewiswch 'Asesiadau personol'.** | |
| **2. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi diffodd y nodwedd 'Cyfieithu' ar eich porwr gwe. Ar gyfer yr asesiadau Darllen, dylech ddarllen y testunau a'r cwestiynau yn yr iaith sydd ar y sgrin. Yn yr asesiadau Rhifedd, gallwch bwyso botwm 'y byd' ar waelod y sgrin i newid iaith y cwestiwn.** | |
| **3. Dylai fod gennych ddarn o bapur a phensil/pen i wneud gwaith bras neu nodiadau ar gyfer pob un o'r asesiadau. Os na, gofynnwch.** | |
| **4. Ar gyfer Rhifedd (Rhesymu), gwnewch yn siŵr bod set o glustffonau sy'n gweithio ar gael i chi a'ch bod chi'n gwybod sut i addasu lefel y sain ar eich dyfais.**<br>**Hefyd ar gyfer Rhifedd (Rhesymu), gwnewch yn siŵr bod cyfrifiannell gyda chi. Ym Mlwyddyn 2 a 3, does dim angen cyfrifiannell oni bai eich bod chi'n defnyddio un fel arfer yn y dosbarth. Mae croeso ichi ddefnyddio offer arall hefyd os ydych chi fel arfer yn eu defnyddio yn y dosbarth.** | |
| **5. Mae'r asesiad yn addasu i'ch atebion.**<br>• **Os ydych yn ateb cwestiynau'n gywir, byddwch chi'n cael cwestiynau anoddach.**<br>• **Os ydych yn ateb cwestiynau'n anghywir, byddwch chi'n cael cwestiynau haws.**<br>• **Mae hyn yn golygu y bydd pawb yn cael rhai cwestiynau yn gywir a rhai yn anghywir.**<br>• **Os byddwch chi'n gweld cwestiwn nad ydych chi'n ei ddeall neu gwestiwn anodd iawn, peidiwch â phoeni. Mae hyn yn golygu eich bod chi'n cael eich herio! Rhowch gynnig arni ond peidiwch â threulio gormod o amser arno.** | |
| **6. Ni allwch chi fynd yn ôl i edrych ar y cwestiynau rydych chi wedi'u hateb eisoes neu wedi'u hepgor, felly gwiriwch eich ateb cyn symud ymlaen at y cwestiwn nesaf.**<br>**Nid oes botwm 'yn ôl' ar y sgriniau asesu. Peidiwch â chlicio 'Yn ôl' yn y porwr. Nid yw hyn yn gadael ichi edrych ar eich cwestiynau blaenorol, a bydd rhaid mewngofnodi i'r asesiad eto.** | |
| **7. Os bydd problem gyda'r cyfrifiadur neu'r ddyfais, codwch eich llaw a rhowch wybod i un o'r staff.** | |
| **8. Efallai fydd angen i chi sgrolio i lawr weithiau i weld cwestiwn yn llawn (neu destun, yn yr Asesiadau Personol Darllen) neu i weld y blwch ateb.** | |
| **9. Bydd hyd yr asesiad yn wahanol i bob dysgwr, a dylech weithio heb frysio ac ar eich cyflymder eich hun.**<br>**Mae'n bosibl y bydd nifer y cwestiynau yn amrywio hefyd. Peidiwch â phoeni. Bydd yr asesiad yn gorffen pan fydd digon o wybodaeth gan y system.** | |

| | |
|---|---|
| **10. O ran yr Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol):**<br>• **Os hoffech chi weld y cwestiwn yn yr iaith arall (Saesneg/Cymraeg), dylech glicio ar eicon ‘y byd’ sydd ar waelod y sgrin. Yna, defnyddiwch yr ‘X’ yng nghornel dde uchaf y naidlen i gau’r ffenestr a dychwelyd at y cwestiwn.**<br>• **Os bydd angen help arnoch i ddarllen cwestiwn, dylech godi eich llaw a gofyn i aelod o staff. Gallant ddarllen y cwestiwn ond ni allant eich helpu gyda’r gwaith cyfrifo.**<br>• **Fel arfer, mae’r Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol) yn para rhwng 25 a 30 munud. Os byddwch chi’n gorffen cyn y dysgwyr eraill yn y dosbarth, peidiwch â tharfu arnynt.** | |
| **11. O ran yr Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu)**<br>• **Os hoffech chi weld y cwestiwn yn yr iaith arall (Saesneg/Cymraeg), dylech glicio ar eicon ‘y byd’ ar waelod y sgrin. Yna, defnyddiwch yr ‘X’ yng nghornel dde uchaf y naidlen i gau’r ffenestr a dychwelyd at y cwestiwn.**<br>• **Bydd rhai cwestiynau yn dweud bod cliw ar gael. Os nad ydych yn gwybod yr ateb, dyfalwch orau y gallwch i gael gweld y cliw, oherwydd gallai eich helpu chi i gael yr ateb yn gywir.**<br>• **Os bydd angen help arnoch i ddarllen cwestiwn, dylech godi eich llaw a gofyn i aelod o’r staff. Gallant ddarllen y cwestiwn ond ni allant eich helpu gyda’r gwaith cyfrifo.**<br>• **Pan welwch y botwm chwarae  bydd angen ichi ddefnyddio’ch clustffonau i wrando. Cewch wrando cynifer o weithiau ag y dymunwch.**<br>• **Fel arfer, mae’r Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu) yn para rhwng 30 a 35 munud. Os byddwch chi’n gorffen cyn y dysgwyr eraill yn y dosbarth, peidiwch â tharfu arnynt.** | |
| **12. O ran yr Asesiadau Personol Darllen:**<br>• **Ar sgrin pob cwestiwn, bydd botwm y gallwch chi ei ddefnyddio i agor y testun a’i ddarllen eto. Cewch agor y testun a’i ddarllen gynifer o weithiau ag y dymunwch.**<br>• **Yr eithriad i hyn yw’r cwestiynau cwblhau brawddegau, gan nad oes testun yn gysylltiedig â nhw. Gallai’r cwestiynau hyn godi ar unrhyw adeg yn ystod yr asesiad, ac mae’n bosibl y cewch chi un ar ôl cwestiwn arall sydd yn gysylltiedig â thestun.**<br>• **Asesu eich sgiliau darllen mae’r asesiad hwn, felly nid oes modd eich helpu chi i ddarllen y cwestiynau hyn.**<br>• **Fel arfer, mae’r Asesiadau Personol Darllen yn para rhwng 20 a 40 munud. Os byddwch chi’n gorffen cyn y dysgwyr eraill yn y dosbarth, peidiwch â tharfu arnynt.** | |


# 4. Cynnal asesiad

## 4.1 Hwyluso asesiad personol

Ar y dyddiad y trefnwyd yr asesiad, gall staff sydd â swyddogaethau ‘Hwyluso’, ‘Hwyluso a dadansoddi’ neu ‘Gweinyddu’ ryddhau’r asesiad i ddysgwr. Nid oes modd hwyluso asesiad ar unrhyw ddiwrnod ond y diwrnod ysgol y trefnwyd yr asesiad ar ei gyfer.


I hwyluso asesiad:

- mewngofnodwch i Hwb
- dewiswch y ddolen ‘Asesiadau personol’ o dan ‘Dewislen’ wrth frig ochr dde y sgrin neu ar hafan Hwb.




Bydd defnyddwyr yn gallu hwyluso asesiad o’r dudalen ‘Hafan’ neu’r dudalen ‘Asesiadau’.

Bydd yr asesiadau a drefnwyd ar gyfer y diwrnod hwnnw i’w gweld o dan ‘Asesiadau heddiw’ ar y dudalen ‘Hafan’. I hwyluso asesiad o’r dudalen hon, dewiswch ‘Hwyluso’.





I hwyluso asesiadau o’r dudalen ‘Asesiadau’, dewiswch ‘Asesiadau’ a nodwch eich meini prawf chwilio – math o asesiad, amrediad dyddiadau, grŵp blwyddyn, dosbarth a statws –


ac yna dewiswch ‘Chwilio’.

Bydd y staff yn gallu gweld holl asesiadau’r ysgol, ond dim ond pan fydd gan ddefnyddiwr fynediad at y grŵp blwyddyn neu’r dosbarth perthnasol y bydd y botwm ‘Hwyluso’ yn ymddangos iddynt.

Byddwch yn gweld rhestr o’r holl asesiadau a drefnwyd. Dewiswch ‘Hwyluso’.




Er mwyn i’r dysgwyr gael mynediad at yr asesiadau, rhaid ichi **ryddhau’r asesiadau** iddynt. Dim ond ar ôl 8a.m. y bydd yr asesiadau ar gael i’w rhyddhau. Dim ond yr asesiadau hynny sydd wedi’u trefnu ar gyfer y diwrnod hwnnw y bydd y system yn gadael i chi eu rhyddhau, a hynny gan ddefnyddio’r botwm ‘Rhyddhau’ a fydd yn ymddangos wrth ymyl y dysgwyr.




I ddethol pawb neu grŵp o ddysgwyr, dewiswch ‘Rhyddhau’r rhai a ddewiswyd’, neu i ryddhau dysgwr unigol, dewiswch y botwm ‘Rhyddhau’. Bydd naidlen yn ymddangos i’ch atgoffa i ddarllen y rhestr wirio sy’n berthnasol i’r pwnc cyn cynnal yr asesiad. Bydd angen ichi ddefnyddio’r botwm ‘Cau’ i gael gwared ar y naidlen. Sicrhewch fod rhywun yn goruchwylio’r dysgwyr pan gaiff yr asesiadau eu rhyddhau.

Unwaith y byddant wedi’u rhyddhau, bydd asesiad pob unigolyn yn dangos y statws ‘Yn barod’. Bydd y dysgwyr nawr yn gallu mewngofnodi i Hwb a gweld yr asesiadau.

Unwaith y bydd dysgwr wedi dechrau asesiad, bydd y dudalen hwyluso hefyd yn caniatáu ichi oedi, ailddechrau a chanslo asesiadau byw.

Dylid oedi’r asesiad os bydd angen i ddysgwyr adael yr asesiad, e.e. os bydd larwm tân neu os rhoddir egwyl i’r dysgwyr. Gallwch ailgydio ynddo wedyn a’i gwblhau yr un dydd. Os bydd dysgwr wedi dechrau’r asesiad ond ni fydd yn gallu ei gwblhau yr un dydd, dylid canslo’r asesiad. Ni fydd asesiad sydd wedi’i ganslo yn cael ei gofnodi ac ni fydd yn rhoi unrhyw adborth. Os bydd dysgwr wedi dechrau’r asesiad ond wedi methu â’i orffen ac nid yw’r asesiad yn cael ei ganslo, caiff y canlyniadau eu lanlwytho am 5p.m. a chaiff yr asesiad ei drin fel pe bai wedi’i gwblhau.

Os na fydd dysgwr yn dechrau’r asesiad ar y diwrnod y trefnwyd yr asesiad ar ei gyfer, bydd yr asesiad yn cael ei ganslo’n awtomatig a gallwch ei aildrefnu rywbryd eto. I aildrefnu asesiadau ar gyfer dyddiad arall, dewiswch ‘Aildrefnu’, neu gallwch ddefnyddio’r tab ‘Asesiadau’ i drefnu asesiad newydd.


Bydd y botwm ‘Adnewyddu’ ar ganol y sgrin yn adnewyddu’r dudalen i chi, gan ddangos unrhyw newidiadau i’r golofn ‘Statws’.

## 4.2 Mewngofnodi'r dysgwyr

- Dylai'r dysgwyr fynd i https://hwb.llyw.cymru/ a nodi eu manylion mewngofnodi i Hwb (enw defnyddiwr a chyfrinair). Dylid rhoi cymorth iddynt yn ôl yr angen.


- Pan fydd yr asesiadau wedi'u rhyddhau ar y dudalen hwyluso gan aelod o staff, dylai'r dysgwyr fynd i'r 'Hafan' ar wefan yr asesiadau a dewis botwm y pwnc perthnasol, e.e. 'Rhifedd (Gweithdrefnol)', 'Rhifedd (Rhesymu)', 'Darllen Cymraeg' neu 'Darllen Saesneg'. Bydd y botwm hwn yn dangos enw'r asesiad a drefnwyd.





- Bydd y dysgwr yn gweld neges yn gofyn iddo gadarnhau ei enw a'i flwyddyn (sgrinluniau isod).

- Ar ôl dewis 'Ie', bydd y dysgwr yn cael ei arwain at sgrin newydd i'w atgoffa o beth fydd ei angen arno ar gyfer yr asesiad (gweler adran 3.15.2 ar dudalen 32.) Bydd yr asesiad yn dechrau pan fydd y dysgwyr yn pwyso 'Dechrau'r asesiad'. Os yw'n dewis 'Na', caiff ei allgofnodi o'r system, a bydd yn dychwelyd at dudalen 'Hafan' Hwb.



## 4.3 Cyflwyno'r asesiad

### 4.3.1 Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol)


Mae cwestiynau'r r asesiad hwn wedi'u rhannu yn dair adran:

- Adran 1: **5** cwestiwn o grŵp blwyddyn presennol y dysgwr, neu'r flwyddyn a ddewiswyd ar gyfer y dysgwr adeg trefnu'r asesiad.
- Adran 2: **15** cwestiwn sy'n gallu dod o unrhyw grŵp blwyddyn, gan gynnwys hyd at un flwyddyn yn uwch na grŵp blwyddyn presennol y dysgwr (neu'r flwyddyn a ddewiswyd ar gyfer y dysgwr)
- Adran 3: **8** cwestiwn o unrhyw grŵp blwyddyn (bydd dysgwyr Blwyddyn 2 a 3 yn cael eu cyfyngu i gwestiynau hyd at flwyddyn 6)
- Bydd rhai o'r dysgwyr yn cael cwestiwn treialu byw ychwanegol ar ddiwedd yr asesiad.

Tri math o gwestiwn sydd yn yr Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol):


- cofnodi rhif
- aml ddewis
- aml ymateb.

Dyma enghraifft o gynllun sgrin y cwestiynau aml ddewis:





Drwy glicio ar eicon 'y byd' ar waelod y sgrin, bydd y dysgwyr yn gallu gweld y cwestiwn yn yr iaith arall (Saesneg/Cymraeg).

Mae'r naidlen sydd i'w gweld isod yn dangos delwedd o'r un cwestiwn ond yn yr iaith arall. Dylai'r dysgwyr gau'r naidlen a dychwelyd at y cwestiwn i nodi eu hateb. Nid oes modd nodi'r atebion yn y naidlen. I gau'r naidlen, defnyddiwch yr 'X' yn y gornel dde uchaf.




Ar ôl iddynt nodi neu ddewis eu hateb(ion), bydd dysgwyr yn symud ymlaen at y cwestiwn nesaf drwy ddewis ‘Nesaf’.

Ym mhob un o’r asesiadau, bydd y dysgwyr yn gweld y neges ganlynol os nad ydynt yn ateb ac yn dewis ‘Nesaf’:




Drwy ddewis ‘Ydw’, bydd y dysgwr yn dychwelyd at y cwestiwn presennol. Drwy ddewis ‘Nac ydw’, bydd y dysgwr yn symud ymlaen at y cwestiwn nesaf.

### 4.3.2 Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu)

Mae dau fath o gwestiwn mewn Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu), sef :


- cwestiynau un marc
- cwestiynau aml-farc (gyda chliwiau).

Defnyddir y cwestiynau hyn i strwythuro’r asesiad fel a ganlyn:

- ar gyfer Blynyddoedd 4 i 9, mae’r asesiad yn dechrau gyda chwestiynau un marc cyn symud ymlaen at gwestiynau aml-farc unigol gyda chliwiau. Daw’r asesiad i ben gydag adran ysgogol, sef tudalennau gwybodaeth a chynnwys sain sy’n sail i nifer o gwestiynau unigol ac aml-farc
- ar gyfer Blynyddoedd 2 i 3, mae’r asesiad yn cynnwys cwestiynau un marc ac yna’r adran ysgogol a ddisgrifir uchod.


### Cwestiynau un marc

Dyma enghraifft o gynllun y cwestiynau hyn:




### Cwestiynau aml-farc (gyda chliwiau)

Dyma enghraifft o gynllun y cwestiynau hyn:




Mae cliwiau ar gael ar gyfer cwestiynau cofnodi rhif aml-farc. Sylwch ar y pennawd: 'Mae cliwiau gan y cwestiwn hwn'. Mae'r cliwiau'n rhoi fframwaith ar gyfer dod o hyd i'r ateb i gwestiwn ac yn caniatáu i farn gael ei llunio ynghylch faint o gymorth sydd ei angen ar ddysgwr i ddod o hyd i ateb. Rhoddir y cliwiau canlynol:


- Os nad yw'r dysgwr yn rhoi ateb, bydd nodyn yn ymddangos yn dweud 'Does dim ateb. Ydych chi eisiau rhoi cynnig arall arni?'. Os nad ydynt yn gallu ateb y cwestiwn o hyd ac yn dewis 'Nac ydw', cânt eu symud ymlaen at y cwestiwn nesaf.
- Os ydynt yn dewis 'Ydw' (h.y. yr hoffent roi cynnig arall ar y cwestiwn), gofynnir a ydynt am weld cliw. Os ydynt yn dewis 'Ydw' bydd y cliw cyntaf yn ymddangos.

- Os bydd dysgwyr yn rhoi'r ateb anghywir, gofynnir iddynt wirio eu gwaith cyfrifo yn gyntaf.
- Ar ôl i'r cliw cyntaf gael ei gyflwyno, ac os rhoddir ateb anghywir neu os na roddir ateb o gwbl, gofynnir i'r dysgwyr a ydynt yn dymuno cael cliw arall, os oes cliw ar gael, tan y bydd y cliw terfynol yn cael ei gyflwyno.
- Os yw'r dysgwyr yn gweld y cliw terfynol ac yna'n clicio 'Nesaf' (p'un a ydynt wedi nodi ateb ai peidio), bydd y cwestiwn nesaf bob amser yn cael ei gyflwyno i'r dysgwr heb unrhyw neges mewn naidlen. Bydd hyn yn wir p'un a yw'r dysgwyr yn cael yr ateb yn gywir neu'n anghywir.


**Yr adran ysgogol**

Mae'r cwestiynau hyn wedi'u llunio ar sail cyfres o gyd-destunau a gyflwynir i'r dysgwyr ar ffurf sleidiau sydd â thestun, delweddau a ffeiliau clyweledol. Ar ôl y tudalennau gwybodaeth hyn, bydd set o gwestiynau cofnodi rhif (rhai gyda chliwiau) sy'n seiliedig ar y cyd-destun a gyflwynwyd. Ceir enghreifftiau isod o wahanol adrannau'r cwestiynau hyn.


Dyma dudalen wybodaeth gyda chyfarwyddiadau ar beth i'w wneud nesaf:




Dyma sgrinlun sy'n dangos un o'r ffeiliau clyweledol sydd yn y set yma o gwestiynau. Bydd y clip sain yn chwarae'n awtomatig, a gall y dysgwyr ei ailchwarae gynifer o weithiau ag y dymunent. Pan fydd y dysgwyr yn barod i symud ymlaen at y sleid nesaf, rhaid iddynt ddewis 'Nesaf'.





Dyma enghraifft o gwestiwn sydd â chliwiau, sy'n dilyn y sleidiau gwybodaeth. Mae'r sgrinlun cyntaf yn dangos sut mae'r cwestiwn yn cael ei gyflwyno i ddechrau.



Os yw'r ateb yn anghywir neu'r blwch ateb yn wag, bydd cliw yn cael ei gynnig. 'Gwiriwch eich gwaith' yw'r cliw cyntaf bob tro:




Mae'r sgrinlun isod yn dangos y cliw cyntaf a'r ail ar gyfer y cwestiwn hwn. Mae unrhyw gliwiau a gafwyd eisoes, y cwestiwn gwreiddiol, ac unrhyw atebion a roddwyd eisoes gan y dysgwr i gyd ar gael i'w gweld. Efallai fydd angen sgrolio i ailddarllen y cwestiwn gwreiddiol, fel isod.



**Gall cwestiynau aml-farc hefyd ymddangos fel cwestiynau unigol. Nid oes gan y cwestiynau cliwiau unigol hyn dudalennau gwybodaeth na chwestiynau sy'n seiliedig ar gyd-destunau.**

### 4.3.3 Asesiadau Personol Darllen

Mae'r asesiad hwn wedi'i rannu yn dair adran o gwestiynau, ac mae'r adrannau yn cynyddu neu yn gostwng lefel anhawster y cwestiynau yn raddol gan ddibynnu ar atebion y dysgwr.

Yn yr adran gyntaf, mae cwestiynau sy'n cyfateb yn fras i lefel grŵp blwyddyn presennol y dysgwr, er bod modd i staff newid hyn yn ôl yr angen, os bydd dysgwr yn gweithio islaw'r lefel hon. Bydd cwestiynau'r ail a'r drydedd adran yn briodol ar gyfer ystod ehangach o grwpiau blwyddyn.

Bydd y dysgwyr yn cael sawl math o gwestiwn gwahanol ar draws tair adran yr asesiad. Gan ddibynnu ar grŵp blwyddyn eu man cychwyn, bydd cyfuniad o gwestiynau unigol a chwblhau brawddegau (grwpiau iau) a chwestiynau ar sail testunau byr, canolig eu maint a hir (grwpiau hŷn).

Yn ystod yr asesiad, bydd dysgwr sy'n ateb mwy o gwestiynau yn gywir yn mynd o ddarllen testunau byr a chanolig eu maint i rai hir yn ystod y tair adran. Os na fydd dysgwr yn cael llawer yn gywir, bydd adran olaf yr asesiad yn addasu i destunau byr sy'n fwy addas i lefel y dysgwr.


Bydd rhwng 31 a 33 o gwestiynau yn cael eu cyflwyno i'r dysgwyr, er bod posibilrwydd y bydd cwestiwn ychwanegol o bryd i'w gilydd, os oes angen ei dreialu. Ar gyfartaledd, mae'n cymryd rhwng 20 a 40 munud i gwblhau asesiad.

Dyma'r chwe math o gwestiwn sydd yn yr Asesiadau Personol Darllen (Cymraeg a Saesneg):


- cwblhau brawddegau
- aml ddewis (gyda dewisiadau ateb ar ffurf testun neu ddelweddau)
- aml ymateb
- cywir neu anghywir
- trefnu
- llusgo a gollwng.

Nid oes testun darllen ynghlwm wrth bob un o'r cwestiynau. Isod ceir enghreifftiau o gwestiynau aml ddewis nad ydynt wedi'u seilio ar destun darllen.


Aml ddewis gyda dewisiadau ateb ar ffurf testun:





Aml ddewis gyda dewisiadau ateb ar ffurf delweddau:




Cwestiynau llusgo a gollwng:





Bydd nifer o gwestiynau wedi'u grwpio am un testun byr, canolig neu hir. I ddechrau, bydd y dysgwyr yn gweld tudalen wybodaeth, gyda dolen i'r testun sydd i'w ddarllen. Ar ôl darllen y testun, bydd rhwng tri ac wyth o gwestiynau yn dilyn sy'n ymwneud â'r testun hwnnw.





Er mwyn iddynt allu cyfeirio'n ôl at y testun wrth ateb, bydd gan bob cwestiwn ddolen sy'n agor naidlen o'r testun, a bydd y dysgwyr wedyn yn gallu agor ac ailddarllen y testun cynifer o weithiau ag y dymunent. Mae modd llusgo'r naidlen o amgylch y sgrin er mwyn gallu gweld y testun a'r cwestiwn ar yr un pryd. Ceir enghreifftiau isod.


Cwestiwn: 2
: USER Demo
Darllenwch y testun ac yna dewi
Ble mae'r plant?
Darllenwch y testun.
Yn yr ysgol.
Yn Awstralia.
Yn y siop.
Yn y parc.
Darllenwch y testun.
Gwers celf
Yn yr ysgol roedd y plant yn cael gwers Celf gan Mrs Gruffydd. Roedd Elis wrth ei fodd yn arlunio. Roedd e eisiau bod yn arlunydd ryw ddiwrnod.
"Heddiw," meddai Mrs Gruffydd, "gawn ni gystadleuaeth i weld pwy fydd y gorau am dynnu llun creadur o Awstralia. Aderyn, pysgodyn, trychfil, neu anifail arall."
Nesaf


Darllenwch y testun.
Gwers celf
Yn yr ysgol roedd y plant yn cael gwers Celf gan Mrs Gruffydd. Roedd Elis wrth ei fodd yn arlunio. Roedd e eisiau bod yn arlunydd ryw ddiwrnod.
"Heddiw," meddai Mrs Gruffydd, "gawn ni gystadleuaeth i weld pwy fydd y gorau am dynnu llun creadur o Awstralia. Aderyn, pysgodyn, trychfil, neu anifail arall."
Dangosodd Mrs Gruffydd bentwr o luniau i'r plant. Roedd Mared yn hoffi'r parot coch a melyn lliwgar. Siarc mawr, ffyrnig yr olwg oedd ffefryn Caron. Dewisodd Steffan gangarŵ gyda chynffon hir a choesau cryf. Ond, doedd Elis ddim yn gallu penderfynu.
Cau Deunydd Ffynhonnell
Cwestiwn: 4
: USER Demo
Darllenwch y testun ac yna dewiswch y ddau focs ateb cywir.
Beth ydy enwau rhai o'r plant sydd yn y wers celf?
Darllenwch y testun.
Nifer yr atebion hyd yma: 0
Caren
Siarli
Elis
Mared
Stephanie
Gruffydd
Nesaf

Yn yr ail enghraifft uchod, mae gofyn i'r dysgwyr ddethol mwy nag un ateb cywir. Os na fydd dysgwyr wedi nodi digon o atebion cyn pwyso 'Nesaf' bydd y neges hon yn ymddangos:




O ddewis 'Ydw', bydd y dysgwr yn dychwelyd at y cwestiwn, ac o ddewis 'Nac ydw' bydd yn symud ymlaen at y cwestiwn nesaf.

Ar ôl nodi neu ddewis eu hateb(ion), bydd y dysgwyr yn symud ymlaen at y cwestiwn nesaf drwy ddewis 'Nesaf'.

Mae'r Asesiadau Personol Darllen hefyd yn galluogi'r dysgwyr i weld y dudalen wybodaeth ochr yn ochr â'r cwestiynau, drwy agor y testun fel yn y sgrinluniau uchod. I wneud hyn, rhaid i fonitor y cyfrifiadur fod â chydraniad sgrin o 1920 x 1080, a rhaid gosod graddfa'r monitor ar 100 y cant. I wirio'r gosodiadau hyn ar beiriant Windows 10:

1. dde-gliciwch ar y monitor a dewiswch 'Gosodiadau dangosydd'
2. o dan 'Graddfa a chynllun', gwiriwch fod y 'Cydraniad dangosydd' wedi'i osod ar 1920 x 1080
3. o dan 'Graddfa a chynllun', gwiriwch fod y 'Newid maint testun, apiau ac eitemau eraill' wedi'i osod ar 100 y cant.

# 5. Ar ôl yr asesiad

## 5.1 Adroddiadau

Ddiwrnod ar ôl cynnal yr asesiadau, bydd adroddiadau adborth y dysgwyr ar gael i'r staff hynny sydd â swyddogaethau 'Gweinyddu' a 'Hwyluso a dadansoddi', er mwyn eu gweld a'u rhannu â'r dysgwyr (fel y bo'n briodol). Mae adroddiad adborth y dysgwyr ar gyfer Rhifedd (Rhesymu) wedi'i gynllunio fel bod yr athrawon a'r dysgwyr yn ei drafod ar y cyd, ac felly nid yw ar gael i'w ryddhau i'r dysgwyr. Nid yw'n ofynnol i ysgolion gyflwyno'r adroddiad hwn yn uniongyrchol i rieni. Bydd adroddiadau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr, sy'n crynhoi'r sgiliau ar lefel y grŵp, hefyd ar gael ar gais.


## 5.2 Mynediad i staff

Bydd yr adroddiadau ar gael ar wefan yr asesiadau. Dim ond staff sydd â swyddogaethau 'Gweinyddu' a 'Hwyluso a dadansoddi' fydd yn gallu gweld yr adroddiadau.

- Gall aelodau o staff weld adborth y dysgwyr a'i ryddhau i'r dysgwyr (lle bo'n briodol) drwy'r adran 'Adborth dysgwyr', o dan y tab 'Adroddiadau'.
- Rhaid i staff ryddhau'r adborth i'r dysgwyr cyn i'r dysgwyr allu cael mynediad ato.


**I gael mynediad at yr adborth**, dylid**:**

- mewngofnodi i Hwb
- dewis y ddolen 'Asesiadau personol' o dan 'Dewislen' wrth frig ochr dde y sgrin neu ar hafan Hwb.




## 5.3 I weld a rhyddhau adborth y dysgwyr


- Dewiswch ‘Adborth dysgwyr’ o dan y tab ‘Adroddiadau’.





- Defnyddiwch y dewisiadau o dan ‘Chwiliad adborth’ i ddethol y math o asesiad, ystod y dyddiadau, y grŵp blwyddyn, y dosbarth a/neu’r dysgwr a ddymunir.
- Pwyswch ‘Chwilio’.
- Os byddwch yn pwyso ‘Chwilio’ heb hidlo’r wybodaeth, bydd y system yn dangos pob dysgwr yn y grwpiau blwyddyn/dosbarthiadau y mae gan y defnyddiwr fynediad atynt.




- I weld adborth dysgwr unigol, dewiswch ‘Gweld adborth’ fel yn y sgrinlun isod (bydd yn agor mewn tab newydd yn y porwr).
- I ryddhau ei adborth i ddysgwr unigol, dewiswch ‘Dangos’ (hefyd yn y sgrinlun isod). Unwaith y bydd y botwm ‘Dangos’ wedi’i ddewis, bydd y botwm ‘Cuddio’ ar gael. Bydd hwn yn cuddio’r adborth rhag y dysgwr.
- Ar ôl i asesiad newydd gael ei gwblhau, bydd y system yn cynhyrchu adroddiad adborth o’r newydd bob tro. Bydd yr adroddiadau blaenorol yn parhau i fod wedi’u rhannu ond ni fydd yr un newydd yn ymddangos i’r dysgwr nes iddo gael ei ryddhau gan yr athro/athrawes.
- Ar ddiwrnod cwblhau asesiad, bydd adborth y dysgwr yn dangos gyda’r statws ‘Yn aros’.
- Caiff adborth dysgwr unigol ei gynhyrchu dros nos ar ôl yr asesiad. Caiff yr adborth ar gyfer grwpiau o ddysgwyr (e.e. adborth dosbarth cyfan) ei gynhyrchu ar gais, gan ddefnyddio ‘Swp-adroddiadau’ (gweler adran 5.6 ar dudalen 56).





- Os hoffech argraffu copïau caled o’r adborth, dewiswch ‘Argraffu’ o fewn eich porwr a ‘Cadw fel PDF’ fel yr argraffydd i’w ddefnyddio, a bydd hyn yn cadw’r adroddiad ar ffurf PDF fel bod modd ei brintio.





## 5.4 I weld adroddiadau cynnydd y dysgwyr

Mae adroddiadau cynnydd y dysgwyr yn gadael i athrawon weld cynnydd y dysgwyr ar draws nifer o asesiadau. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael y diwrnod ar ôl gwneud yr asesiad personol. Mae adroddiadau cynnydd y dysgwyr ar gael i’r staff hynny sydd â’r swyddogaethau ‘Gweinyddu’ a ‘Hwyluso a dadansoddi’.

- Mae adroddiadau cynnydd y dysgwyr ar gael i aelodau staff drwy’r adran ‘Cynnydd dysgwyr’ o dan y tab ‘Adroddiadau’.




- Gallwch hidlo yn ôl asesiad, enw'r dysgwr, grŵp blwyddyn a dosbarth, ac yna dewis 'Chwilio'. Os byddwch yn dewis 'Chwilio' heb hidlo'r wybodaeth, bydd y system yn dangos pob dysgwr yn y grwpiau blwyddyn/dosbarthiadau y mae gan y defnyddiwr fynediad atynt.





- Drwy ddewis y botwm 'Dangos', bydd adroddiad cynnydd y dysgwr ar gael i'r dysgwr hwnnw ei weld yn ei gyfrif. Bydd staff yn gallu dangos a chuddio yr adroddiad, yn ôl yr angen.
- Os yw'r adroddiad cynnydd wedi'i rannu o hyd pan fydd y dysgwr wedi cwblhau asesiad newydd, bydd yr adroddiad mae'r dysgwr yn ei weld yn cael ei ddiweddaru'n awtomatig i fod am yr asesiad mwyaf diweddar.
- Drwy ddewis y botwm 'Gweld cynnydd' wrth ymyl enw'r dysgwr perthnasol, byddwch yn mynd at dudalen cynnydd y dysgwr hwnnw.



- Yr adran 'Cynnydd' sy'n dangos pa adroddiadau cynnydd sydd ar gael. Bydd gan y dysgwyr un adroddiad cynnydd fesul pwnc. Yr adran 'Adborth' sy'n dangos adborth dysgwyr unigol ar yr asesiadau a wnaed o'r blaen.

- Drwy ddewis y botwm 'Gweld cynnydd', bydd adroddiad cynnydd y dysgwr perthnasol yn agor mewn tab newydd.

- Dewiswch y botwm 'Yn ôl' i fynd â chi yn ôl at y dudalen chwilio 'Cynnydd dysgwyr'.




## 5.5 I weld yr adroddiadau grŵp


Rydych yn gwneud cais am adroddiad grŵp ar y sgrin 'Adroddiadau grŵp', sydd o dan y tab 'Adroddiadau'. Ar ôl gwneud cais am adroddiad, bydd i'w weld yn syth ar y sgrin 'Adroddiadau grŵp' â'r statws 'Yn aros'. Noder ein bod yn cynghori gwneud cais am yr adroddiadau fesul dosbarth, lle bo'n bosibl.

Pan fydd yr adroddiad ar gael, cewch hysbysiad ar 'Hafan' gwefan yr asesiadau yn dangos sawl adroddiad newydd sydd ar gael. Yna, bydd yr adroddiadau i'w gweld ar y sgrin 'Adroddiadau grŵp', gyda'r statws 'Ar gael' a botwm 'Gweld'. Mae'r amser a gymerir i gynhyrchu adroddiad ac i'w roi ar wefan yr asesiadau yn dibynnu ar faint o wybodaeth y ceisiwyd amdani (h.y. pa mor fawr yw'r grŵp) a pha mor brysur yw'r system.

Pan fydd adroddiad yn cael ei agor, mae'r dyddiad a'r amser yn cael ei gofnodi, a bydd yr wybodaeth hon i'w gweld yn y golofn 'Wedi gweld'. Bydd y statws 'Wedi gweld' ar yr adroddiad hefyd.

Bydd adroddiadau grŵp yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Caiff adroddiad ei ddileu o'r storfa unwaith y bydd wedi dod i ben. Os bydd angen yr adroddiad eto, bydd modd gwneud cais arall am yr adroddiad ar yr amod bod gan yr ysgol hawliau mynediad dros ddata y dysgwyr hynny o hyd.


- Dewiswch 'Adroddiadau grŵp'.




- Defnyddiwch y meini prawf i chwilio am y math o asesiad, y math o adroddiad, y grŵp blwyddyn, y dosbarth a'r dyddiadau a ddymunwch, a dewiswch 'Chwilio' i edrych ar yr adroddiadau presennol, neu dewiswch 'Cais am adroddiad grŵp' i wneud cais am adroddiad grŵp newydd.




- Defnyddiwch y cwymplenni i ddewis y math o asesiad, y math o adroddiad, y grŵp blwyddyn, y dosbarth neu'r grŵp penodol o ddysgwyr, y flwyddyn academaidd ac ystod y dyddiadau.
- Dewiswch 'Cais am adroddiad grŵp'.





Gallwch ddefnyddio'r opsiwn 'Rheoli grŵp' i greu adroddiadau ar gyfer grŵp dethol o ddysgwyr.

- Dewiswch 'Rheoli grŵp' – mae'r sgrin hefyd yn dangos y grwpiau mae'r defnyddiwr eisoes wedi'u creu.

- Dewiswch 'Grŵp newydd' – mae hyn hefyd ar gael o'r sgrin 'Cais am adroddiad grŵp'.



- Nodwch ‘Enw’r grŵp’ ac ychwanegwch ddysgwyr at y grŵp.





- Dewiswch ‘Cadw’ i greu’r grŵp newydd.

**Noder:** Mae adroddiadau grŵp yn cael eu cadw ar yr adeg y gwneir cais amdanynt, ac maent yn aros yn gyfredol drwy gydol y flwyddyn academaidd berthnasol. Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, caiff yr adroddiadau grŵp i gyd eu dileu o’r system, am resymau diogelu data. Yn ystod haf 2022, cafodd templedi yr adroddiadau grŵp eu diweddaru i gyfleu’r diwygiadau a wnaed i’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn sgil Cwricwlwm i Gymru i ddangos y meysydd sgiliau a’r datganiadau diwygiedig. Felly, os byddwch yn gwneud cais am adroddiad grŵp o flwyddyn academaidd flaenorol, bydd yn dangos sgiliau’r grŵp yn unol â’r meysydd sgiliau a’r datganiadau newydd.


## 5.6 Cynhyrchu swp-adroddiadau

Bwriad swp-adroddiad yw caniatáu i staff weld ac argraffu adroddiadau adborth ac adroddiadau cynnydd ar gyfer sawl dysgwr ar y tro, fesul grŵp blwyddyn neu fesul dosbarth.


- Dewiswch ‘Swp-adroddiadau’ dan y tab ‘Adroddiadau’.




- Dewiswch ‘Cais am swp-adroddiad’ i gael swp-adroddiad newydd. Fel arall, nodwch y meini prawf chwilio (math o asesiad, math o adroddiad, grŵp blwyddyn, dosbarth(iadau) a dyddiadau) a dewis ‘Chwilio’ i weld yr adroddiadau y ceisiwyd amdanynt yn gynharach yn y flwyddyn ysgol.





- Mae dewis ‘Cais am swp-adroddiad’ yn dangos y sgrin yma, lle mae modd gofyn am swp-adroddiad newydd. Dewiswch y meini prawf (math o asesiad, math o adroddiad, fformat, iaith, grŵp blwyddyn, dosbarth(iadau) neu grŵp penodol) ar gyfer yr adroddiad ac yna dewiswch ‘Cais am adroddiad’.



- Nodwch eich meini prawf chwilio a dewiswch ‘Chwilio’ i weld eich adroddiad(au). Os byddwch yn dewis ‘Chwilio’ heb nodi unrhyw feini prawf, cewch restr o’r holl swp-adroddiadau y mae’r defnyddiwr wedi gwneud cais amdanynt o’r blaen.




- Ar ôl gwneud cais, i ddechrau, bydd ‘Yn aros’ gyferbyn â’r adroddiad ar y rhestr. Pan fydd yr adroddiad ar gael, bydd modd dewis botwm ‘Gweld’ i agor yr adroddiad. O ddewis ‘Gweld’, bydd yr adroddiad yn agor mewn tab newydd yn eich porwr ac, yno, byddwch yn gallu gweld/argraffu’r adroddiad. Awgrymir gwneud cais am adroddiadau fesul dosbarth, lle bo modd.




Wrth edrych ar y swp-adroddiadau ar-lein, bydd tab ar wahân i bob iaith. Nid oes ots ym mha iaith y bydd y dysgwr wedi gofyn am gael yr adroddiad – Cymraeg, Saesneg neu’n ddwyieithog – bydd y fersiwn ar-lein bob amser yn dangos y ddwy iaith, gan ddechrau gyda’r iaith y gofynnwyd amdani. Os bydd defnyddiwr wedyn yn argraffu’r adroddiadau, bydd y rhagolwg argraffu yn dangos dim ond yr iaith y gofynnwyd amdani (neu’r ieithoedd y gofynnwyd amdanynt).

Er bod modd argraffu’r swp-adroddiadau o bob un o’r porwyr a restrwyd ar dudalen 10, argymhellwn eich bod yn defnyddio Chrome, gan nad oes angen addasu’r gosodiadau yn ormodol cyn argraffu.

Unwaith y bydd yr adroddiadau wedi agor yn eich porwr yn barod i’w hargraffu, dylid gwirio’r gosodiadau argraffu a gosodiadau’r dudalen. Sicrhewch:


- mai A4 yw ‘Maint y papur’
- bod y tudalennau wedi’u gosod i argraffu ar y ddwy ochr os ydych yn argraffu adroddiadau dwyieithog
- eich bod wedi diffodd y penynnau a’r troedynnau

- bod y dewis ‘Argraffu delweddau a lliwiau cefndir’ ymlaen
- bod y lliw wedi’i osod yn ôl eich dewis: graddlwyd neu liw
- bod ‘graddfa’ wedi’i gosod i’r hyn sydd fwyaf addas i’r set o adroddiadau – argymhellwn raddfa o 79 y cant.
- Ar bob cyfrif, dylech argraffu un dudalen fel prawf cyn argraffu swp-adroddiadau swmpus.
- Mae’r gosodiadau uchod i gyd i’w cael o fewn gosodiadau argraffu neu osodiadau tudalen eich porwr.

**Noder:** Mae’r adroddiadau adborth a’r adroddiadau cynnydd unigol yn cael eu cadw adeg gorffen yr asesiad. Fodd bynnag, wrth argraffu swp o adroddiadau unigol, mae’r rhain yn cael eu creu ar yr adeg y gwneir y cais amdanynt. Mae hyn yn golygu os byddwch yn argraffu swp o adroddiadau unigol i ddysgwyr ar gyfer blwyddyn academaidd flaenorol, efallai y byddant yn ymddangos ychydig yn wahanol i’r fersiwn a gadwyd ar Hwb, er mai’r un canlyniadau a’r un data sy’n sail iddynt. Gallai’r datganiadau sgiliau yn adroddiadau adborth y dysgwyr amrywio rhywfaint gan fod yr adroddiadau wedi’u diweddaru yn ystod haf 2022 i gyfleu’r diwygiadau a wnaed i’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i gyd-fynd â’r Cwricwlwm i Gymru. Gallai cromliniau’r adroddiadau cynnydd edrych yn wahanol gan iddynt gael eu diweddaru yn ystod haf 2023 i adlewyrchu’r broses ail-safoni a gynhaliwyd bryd honno. Bydd pob siart cynnydd newydd yn dangos pwyntiau’r holl asesiadau blaenorol a’r rhai newydd. Yn dilyn y newid i’r gromlin cynnydd, efallai fydd pwyntiau asesiadau blaenorol yn edrych fel pe baent wedi symud rhyw fymryn o gymharu ag adroddiadau blaenorol.

## 5.7 Ychwanegu nodyn am adroddiad grŵp neu swp-adroddiad a’i olygu

Wrth wneud cais am adroddiad grŵp neu swp-adroddiad, mae modd ychwanegu nodyn hyd at 1,000 o nodau o hyd, a hynny i roi gwybodaeth berthnasol am y garfan honno o ddysgwyr a wnaeth yr asesiad. O dan y tab ‘Adroddiadau’, dewiswch ‘Adroddiadau grŵp’ neu ‘Swp-adroddiadau’. Mae’r sgrinluniau a ganlyn yn ymwneud ag adroddiadau grŵp, ond yr un yw’r broses ar gyfer swp-adroddiadau hefyd.



O dan y tab ‘Adroddiadau grŵp’ neu ‘Swp-adroddiadau’, dewiswch ‘Cais am adroddiad grŵp’ neu ‘Cais am swp-adroddiad’.





Ar ôl cwblhau manylion eich cais (e.e. pa asesiad, math o adroddiad, grŵp blwyddyn, dosbarth neu grŵp dethol o ddysgwyr, blwyddyn academaidd, dyddiadau) bydd blwch testun ‘Nodiadau’ ar waelod y dudalen lle gallwch ychwanegu unrhyw wybodaeth berthnasol.



Ar ôl gadael nodyn, pwyswch y botwm 'Cais am adroddiad grŵp' neu 'Cais am swp-adroddiad'.

Fel arall, gallwch ychwanegu nodyn at adroddiad o'r fath sydd eisoes wedi'i greu. I wneud hynny, pwyswch y botwm 'Gadael nodyn' ar ochr dde y rhes.




Bydd blwch testun yn ymddangos. Pwyswch y botwm 'Cadw' ar ôl gorffen gadael eich nodyn.



I newid neu addasu nodyn a adawyd eisoes ar adroddiad grŵp neu swp-adroddiad, dewiswch ‘Addasu’r nodyn’, gwnewch eich diwygiadau a phwyswch ‘Cadw’.




## 5.8 Dileu adroddiad grŵp neu swp-adroddiad

Gallwch ddileu adroddiad grŵp neu swp-adroddiad nad oes ei angen mwyach. Mae’r sgrinluniau isod yn ymwneud ag adroddiadau grŵp, ond yr un yw’r broses ar gyfer swp-adroddiadau.

O dan y tab ‘Adroddiadau’, dewiswch ‘Adroddiadau grŵp’ neu ‘Swp-adroddiadau’. Dewiswch yr un y mae angen ei ddileu. Ewch i ddiwedd y rhes ar gyfer yr adroddiad hwnnw a phwyso’r botwm ‘Dileu’ ar yr ochr dde.




Wedi hynny, bydd neges yn ymddangos i ofyn ai dyna’r adroddiad y dylid ei ddileu. Gallwch gadarnhau eich dewis, neu ganslo a chadw’r adroddiad.




## 5.9 Dehongli’r adroddiadau

Mae’r adroddiadau yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth fanwl ar nifer o wahanol sgriniau. Mae’r adrannau sy’n dilyn yn disgrifio’r wybodaeth a geir yn yr adroddiadau gwahanol sydd ar gael, a sut i’w dehongli.

### 5.9.1 Adroddiad adborth y dysgwr

Mae adroddiad adborth y dysgwr yn tynnu sylw at gryfderau’r dysgwr ac at unrhyw fannau sydd i’w datblygu ymhellach. O ran yr asesiadau Rhifedd (gweithdrefnol) a Darllen, caiff y datganiadau eu cyflwyno yn yr adroddiad ynghyd â chwestiwn enghreifftiol ar gyfer pob datganiad (nid yr union gwestiwn a gafodd y dysgwr). Caiff hyd at bedwar datganiad eu cynnwys ym mhob adran, ond gall fod yn llai na hynny os nifer fach iawn o gwestiynau a gafodd y dysgwr yn gywir neu’n anghywir, h.y. os gwnaeth y dysgwr hepgor y rhan fwyaf o’r cwestiynau.

Mae’r disgrifiadau ar ddiwedd yr adroddiad yn mapio canlyniad terfynol y dysgwr yn yr asesiad yn erbyn y banc cyfan o gwestiynau. Mae’r disgrifiad cyntaf yn crynhoi’r cwestiynau yn y banc sy’n ymwneud â lefel cyrhaeddiad bresennol y dysgwr. Mae’r ail ddisgrifiad yn crynhoi’r cwestiynau yn y banc sydd ychydig yn fwy anodd na’r rhai ar lefel cyrhaeddiad bresennol y dysgwr. Bydd dysgwyr sy’n perfformio ar frig y banc yn gweld datganiad eu bod ar frig y banc ac y dylent symud ymlaen i weithio ar gynnwys mwy heriol.

Gall athrawon fwrw golwg dros yr adroddiadau hyn ar gyfer Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen cyn eu rhyddhau i’r dysgwyr (drwy ddewis ‘Dangos’ yn y sgrin isod).




Mae’n debygol y bydd athrawon yn awyddus i drafod yr adborth gyda rhai o’r dysgwyr neu â phob un ohonynt, a hynny er mwyn cynllunio’r camau nesaf ar eu cyfer.

O ran Rhifedd (Rhesymu), mae’r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am sut aeth y dysgwr i’r afael â gwahanol fathau o gwestiynau yn yr asesiad, ac am ei ddealltwriaeth o wahanol feysydd rhesymu o gymharu â’i berfformiad ar gyfartaledd, ac mae hefyd yn cynnwys dolenni i gwestiynau enghreifftiol sy’n cyfateb i lefel gallu y dysgwr. Mae’r adroddiad wedi’i gynllunio i ddysgwyr ac athrawon ei drafod ar y cyd, gan fod yr wybodaeth sydd ynddo yn gallu bod yn anodd i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr ei dehongli’n annibynnol. Felly, nid yw’n ofynnol i ysgolion gyflwyno adroddiadau adborth y dysgwyr yn uniongyrchol i’r dysgwyr na’u rhieni a’u gofalwyr drwy eu rhyddhau o’r system. Yn lle hynny, argymhellir fod athrawon yn pwyso a mesur yr adroddiadau a’r adnoddau sy’n cyd-fynd â nhw, ynghyd â sut a phryd i rannu’r wybodaeth a’r gweithgareddau dosbarth â’r dysgwyr, a hynny er mwyn eu helpu i ddeall a datblygu eu sgiliau rhesymu.

### 5.9.2 Adroddiad cynnydd y dysgwr

Yn adran gyntaf yr adroddiad hwn, mae sgoriau'r dysgwyr yn yr holl asesiadau a wnaed ganddynt wedi'u plotio ar graff fel bod yr athrawon, y dysgwyr a'r rhieni a gofalwyr yn gallu olrhain y cynnydd a wnaed dros amser. Yn ail ran yr adroddiad, rhoddir sgôr safonedig ar sail oedran ar gyfer asesiad mwyaf diweddar y dysgwr. Mae'r sgôr yn cymharu perfformiad y dysgwr yn ei asesiad â sgoriau dysgwyr eraill yn yr un grŵp blwyddyn a gafodd eu geni yn yr un flwyddyn a'r un mis ac a wnaeth yr asesiad ar yr un pwynt yn y flwyddyn academaidd. Mae'r sgoriau ar raddfa o 70 i 130, a 100 yw'r sgôr gymedrig. Bydd dysgwyr sy'n perfformio ar lefel isel iawn neu ar lefel uchel iawn â sgoriau o <70 neu 130+.

Yn unol â'r arfer da yn rhyngwladol, caiff yr Asesiadau Personol eu hail-safoni bob pedair i bum mlynedd. Wrth ail-safoni, mae'r cromliniau cynnydd yn yr adroddiad hwn yn cael eu diweddaru i adlewyrchu sut mae'r cyrhaeddiad ar lefel genedlaethol yn datblygu. Bydd pwyntiau yr holl asesiadau a wnaed a'r rhai newydd yn ymddangos ar y gromlin cynnydd newydd, ac felly, gall pwyntiau'r asesiadau blaenorol ymddangos fel pe baent wedi symud rhyw fymryn o'u cymharu ag adroddiadau blaenorol. Byddwn yn rhoi gwybod wrth ysgolion bob tro y byddwn yn cynnal proses ail-safoni.

Am ba reswm bynnag, bydd nifer fechan o ddysgwyr yng Nghymru yn colli blwyddyn neu yn ail-wneud blwyddyn ysgol. Yn yr achosion hyn, bydd adroddiad cynnydd y dysgwyr yn dangos amseroedd wedi'u haddasu ar hyd gwaelod y siart, a bydd cromlin cynnydd y siart yn cyfleu'r blynyddoedd astudio a'r grwpiau blwyddyn pan wnaeth y dysgwr asesiad personol. Bydd y datganiad hwn yn ymddangos uwchben y siart i esbonio pam y gwnaed addasiadau iddi: '*Mae hyn yn defnyddio'r wybodaeth o fy asesiadau i i ddangos fy safle i o gymharu â'r holl ddysgwyr eraill yng Nghymru sydd yn fy ngrŵp blwyddyn i ac a wnaeth yr asesiad ar yr un adeg o'r flwyddyn â fi. Mae dyddiadau fy asesiadau yn dangos nad yw fy nghynnydd fesul grŵp blwyddyn yn dilyn y patrwm arferol, sy'n golygu bod fy nghynnydd i'n edrych yn wahanol i gynnydd dysgwyr eraill. Os bydd unrhyw gwestiynau gen i, galla' i holi fy athro/athrawes.*

Fel gydag adroddiadau adborth y dysgwyr, ni fydd yr adroddiadau hyn ar gael i'r dysgwyr yn Hwb nes iddynt gael eu rhyddhau gan un o'r staff.

Cynghorwn yn gryf ichi rannu'r adroddiadau hyn â rhieni a gofalwyr: adborth Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen y dysgwyr unigol, ac adroddiadau cynnydd y dysgwyr ym mhob pwnc. Yn ychwanegol at hynny, anogwn ysgolion i rannu'r adroddiadau â rhieni a gofalwyr tra bo'r wybodaeth yn gyfredol yn lle aros am ddiwedd y flwyddyn ysgol. Mae'r adborth Rhifedd (Rhesymu) i'w gyflwyno gan yr athrawon ac felly nid oes gofyn i'r adroddiad hwnnw gael ei rannu yn uniongyrchol â rhieni a gofalwyr.

### 5.9.3 Adroddiad grŵp

Mae pum math o adroddiad grŵp ar gael yn y system:

1. Proffil grŵp (plot gwasgariad)
2. Proffil o sgiliau'r grŵp (meysydd y FfLlRh)
3. Llwybrau'r dysgwyr
4. Adroddiad cynnydd y grŵp
5. Adroddiad proffil y grŵp (dadansoddi cryfderau a meysydd datblygu at y dyfodol).

Ceir disgrifiad manwl o bob un o'r adroddiadau hyn yn yr adrannau sy'n dilyn. Gallwch eu creu ar gyfer unrhyw grŵp sydd eisoes wedi'i ddiffinio yn eich systemau gwybodaeth reoli (e.e. grŵp blwyddyn neu ddosbarth), neu ar gyfer grŵp dethol fel y'i diffinnir ar wefan yr asesiadau personol. Ym mhob un o'r adroddiadau hyn, bydd y cynnwys unigryw i'w weld ar ddechrau'r adroddiad, ac yna bydd yr wybodaeth yn yr ail ran yn gyffredin i bob un o'r pum math o adroddiad grŵp. Tabl o ganlyniadau'r grŵp o fewn y cyfnod penodol o amser a ddewiswyd ar gyfer yr adroddiad yw'r adran gyffredin.

Os bydd unrhyw beth anarferol am ddata asesiad dysgwr penodol, bydd ebychnod (!) yn ymddangos nesaf at ei enw. I gael rhagor o wybodaeth, gallwch hofran eich llygoden drosto. Bydd y symbol yn ymddangos am un neu ragor o'r rhesymau hyn:

- Gorffennodd y dysgwr ei asesiad mewn llai na 10 munud.
- Ni ddaeth asesiad y dysgwr i ben yn naturiol. Mae'n fwyaf tebygol ei fod wedi'i derfynu gan y dysgwr ei hun neu gan aelod o'r staff.
- Dewisodd y dysgwr beidio ag ateb 25% neu ragor o gwestiynau'r asesiad.

Os bydd ysgolion yn dymuno cynnwys y sgoriau safonedig ar sail oedran neu'r sgoriau cynnydd yn eu systemau gwybodaeth reoli, gallant wneud hynny drwy fewnforio'r data o'r tabl sydd yn ail adran unrhyw un o'r adroddiadau grŵp. Mae botwm ar gael i lawrlwytho'r wybodaeth ar ffurf taenlen CSV, i hwyluso'r gwaith o'i throsglwyddo i system arall, (e.e. system gwybodaeth reoli yr ysgol).

### 5.9.4 Adroddiad grŵp: Proffil grŵp (plot gwasgariad)

Mae'r adroddiad ar broffil grŵp yn plotio cyrhaeddiad cymharol y dysgwyr gwahanol yn y grŵp ynghyd â chyfartaledd y grŵp. Mae modd gweld enwau'r dysgwyr a gynrychiolir drwy hofran dros y pwyntiau gwahanol. Caiff y merched eu cynrychioli gan sgwariau glas a'r bechgyn gan drionglau coch. Cynrychiolir unrhyw ddysgwyr nad oes gwybodaeth ar gael ynghylch eu rhyw gan gylchoedd llwyd a thriongl gwyn ynddynt.

Mae'r tabl ar waelod yr adroddiad yn nodi enwau'r dysgwyr yn y grŵp, ynghyd â'u manylion Hwb. Rhoddir gwybodaeth am yr amser a dreuliwyd ar yr asesiad, nifer y cwestiynau a gafwyd, a'r amser a dreuliwyd ar bob cwestiwn ar gyfartaledd, a hynny fel gwybodaeth gefndirol i athrawon ei defnyddio wrth ystyried yr adroddiadau.

Mae sgoriau safonedig a sgoriau safonedig ar sail oedran ar gael yn yr adroddiad hwn.

### 5.9.5 Adroddiad grŵp: Proffil o sgiliau'r grŵp (meysydd y FfLlRh)

Mae'r adroddiad ar broffil sgiliau'r grŵp yn crynhoi cyrhaeddiad y grŵp cyfan yn erbyn deg maes Rhifedd ac wyth maes Darllen y FfLlRh. Mae'r adroddiad yn dangos y cyrhaeddiad cymharol yn y gwahanol feysydd. I lunio'r graff hwn, cyfunwyd a chrynhowyd y cwestiynau a oedd yn asesu pob un o feysydd y FfLlRh, a hynny ar gyfer pob dysgwr yn y grŵp.

Os dim ond nifer fach o ganlyniadau sydd ar gael ar gyfer un o feysydd y FfLlRh ond mae'n

ddigon i gyfrifo lefel y cyrhaeddiad, caiff marc cwestiwn mewn cylch ei nodi fel symbol y lefel, i ddangos bod angen gofal wrth ystyried lefel y cyrhaeddiad. Mae hyn yn digwydd pan fydd grŵp bach o ddysgwyr a phob un yn rhoi cynnig ar nifer fach o gwestiynau am faes penodol o'r FfLlRh, ac mae'n bosibl na fydd eu perfformiad yn rhoi darlun sy'n ystadegol ddibynadwy o lefel cyrhaeddiad cyfartalog y grŵp yn y maes hwnnw. Lle nad oes digon o ddata ar gael i gyfrifo canlyniad cyfartalog, bydd y golofn wedi'i lliwio'n llwyd.

Mae'r tabl ar waelod yr adroddiad yn nodi enwau'r dysgwyr yn y grŵp, ynghyd â'u manylion Hwb. Rhoddir gwybodaeth am yr amser a dreuliwyd ar yr asesiad, nifer y cwestiynau a gafwyd, a'r amser a dreuliwyd ar bob cwestiwn ar gyfartaledd, a hynny fel gwybodaeth gefndirol i athrawon ei defnyddio wrth ystyried yr adroddiadau.

Mae'r adroddiad darllen hefyd yn cynnwys nifer y tudalennau gwybodaeth y mae'r dysgwr wedi'u gweld fel y disgrifir ar dudalen 46.

Mae'r sgoriau safonedig a'r sgoriau safonedig ar sail oedran wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

### 5.9.6 Adroddiad grŵp: Llwybrau'r dysgwyr

Mae'r siartiau a geir yn adroddiad llwybrau'r dysgwyr yn dangos y llwybr a gymerwyd gan bob dysgwr drwy'r asesiad, gydag un siart i bob dysgwr. Byddai pob dysgwr wedi dechrau gyda chwestiwn hawdd i ddysgwr o allu cyffredin yn y flwyddyn gwricwlaidd honno (oni bai bod yr athro/athrawes wedi dewis newid hyn). Mae'r dotiau, y trionglau a'r croesau lliw yn dangos a atebodd y dysgwr y cwestiwn yn gywir neu'n anghywir, ac mae hefyd yn nodi lefel anhawster cymharol y cwestiwn a gafwyd. Er enghraifft, gyda Rhifedd (Gweithdrefnol), os atebodd y dysgwr y cwestiwn cyntaf yn gywir, bydd hyn yn cael ei ddangos â chylch glas, ac yna, bydd y cwestiwn nesaf yn uwch ar y graff, i gyfleu'r ffaith ei fod yn gwestiwn mwy heriol. Os atebodd y dysgwr yr ail gwestiwn yn gywir, bydd hyn yn cael ei ddangos â chylch glas a bydd y cwestiwn nesaf yn fwy heriol eto. Os atebodd y dysgwr yr ail gwestiwn yn anghywir, gwelir triongl oren a byddai'r cwestiwn canlynol wedi bod yn haws (gan ymddangos yn is ar y graff). Mae croes yn dynodi ateb anghywir cyflym, a hynny ar sail data sy'n dangos bod dysgwyr sy'n ateb y cwestiwn hwnnw mor gyflym â hynny yn annhebygol iawn o'i gael yn gywir. Mae'r dotiau, y trionglau a'r croesau yn dangos pob cwestiwn a gafodd y dysgwr hyd nes y cafodd yr asesiad ei derfynu gan y system neu gan y staff.

Mae'r adroddiadau Darllen yn debyg ond bod y cwestiynau am destun penodol wedi'u dethol fesul set. Bydd y dysgwr yn gweld pob cwestiwn yn y set, gan gael pob un gywir, pob un yn anghywir, neu ambell un yn gywir ac ambell un yn anghywir. Caiff yr atebion hyn eu nodi â chylchoedd glas os oeddent yn gywir a thrionglau coch os oeddent yn anghywir. Ar ddiwedd y set o gwestiynau, bydd y system asesu yn dethol set newydd o gwestiynau i'r dysgwr.

Mae'r adroddiadau Rhifedd (Rhesymu) yn debyg i'r rhai Rhifedd (Gweithdrefnol) ond bod y llwybr wedi'i rannu yn ôl yr adrannau y mae'r asesiad wedi'u seilio arnynt (h.y. cwestiynau un marc, cwestiynau gyda chliwiau, a chwestiynau ar sail deunyddiau ysgogi). Ar gyfer y cwestiynau sydd â chliwiau, bydd anhawster pob un o'r cliwiau i'w weld ar y llwybr a byddant wedi'u cysylltu. Caiff atebion cywir eu nodi â chylchoedd glas ac atebion anghywir â thrionglau coch. Caiff cliwiau na chawsant eu defnyddio eu nodi â sgwariau llwyd.

Yn yr adroddiadau Rhifedd (Gweithdrefnol), mae modd hofran dros gwestiwn i weld pa faes o'r FfLlRh oedd dan sylw a'r amser a gymerwyd gan y dysgwr i ateb y cwestiwn. Yn yr adroddiadau Darllen, mae'r nodwedd hofran yn dangos maes y FfLlRh, yr amser a gymerwyd gan y dysgwr, a hefyd y math o destun a oedd yn sail i'r cwestiwn.

Nodir y cwestiynau hynny a gafodd ateb anghywir cyflym drwy ystyried yr amser a gymerwyd

gan ddysgwyr eraill yn y grŵp blwyddyn perthnasol a gafodd y cwestiwn yn gywir. Nodir y cwestiwn â chroes os cymerodd y dysgwyr lai o amser na 95% o'r dysgwyr yn yr un grŵp blwyddyn a gafodd y cwestiwn yn gywir. Mae hynny'n golygu, oherwydd lefel yr her yn y cwestiwn, mae'n bosibl na wnaeth y dysgwr dreulio digon o amser yn mynd i'r afael â'r cynnwys i roi cynnig rhesymol ar ganfod yr ateb cywir.

Diben cynrychioli hynt y dysgwr drwy'r asesiad yn weledol yw nodi rhai agweddau o ran ansawdd ei ddull o weithio. Dyma ambell broffil dysgwr nodweddiadol:

- perfformiad cyson iawn, yn cyrraedd lefel derfynol ei gyrhaeddiad yn gyflym heb fawr ddim amrywiad drwy'r asesiad
- cwymp cychwynnol, o bosibl oherwydd nerfau neu ddiffyg canolbwyntio, ac yna cynnydd cyson o ran perfformiad sy'n cyfleu ei fod wedi talu sylw yn gyson
- atebion anghywir cyflym, sy'n cyfleu bod y dysgwr yn dyfalu yn hytrach na cheisio mynd i'r afael â'r cwestiynau
- perfformiad da yn gynnar ac yna cwymp cyson, o bosibl oherwydd anawsterau canolbwyntio yn barhaus.

O gyfuno hyn oll â'u dealltwriaeth bersonol o ddulliau gwaith y dysgwr, gallai hyn helpu athrawon i roi adborth am strategaethau gwaith addas, yn ogystal â'r wybodaeth sy'n benodol i'r cwricwlwm a geir yn yr adroddiad adborth i ddysgwr unigol.

Mae'r tabl ar waelod yr adroddiad yn nodi enwau'r dysgwyr sydd yn y grŵp, ynghyd â'u manylion Hwb. Rhoddir gwybodaeth am yr amser a dreuliwyd ar yr asesiad, nifer y cwestiynau a gafwyd, a'r amser a dreuliwyd ar bob cwestiwn ar gyfartaledd, a hynny fel gwybodaeth gefndirol i athrawon ei defnyddio wrth ystyried yr adroddiadau.

Mae'r sgoriau safonedig a'r sgoriau safonedig ar sail oedran wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

### 5.9.7 Adroddiad cynnydd grŵp

Mae adroddiad cynnydd grŵp yn dangos sut y bydd cyrhaeddiad carfan o ddysgwyr wedi datblygu dros gyfnod o amser. Mae'n dangos sgôr gymedrig grŵp o ddysgwyr sydd wedi gwneud asesiadau mewn pwnc, ac mae'n mapio hyn yn erbyn amrediad holl sgoriau'r dysgwyr yn yr un grŵp blwyddyn ar draws Cymru. Yn ogystal, mae'n cynnwys manylion am sgoriau cynnydd pob dysgwr unigol yn y grŵp ynghyd â'u sgoriau safonedig ar sail oedran ar gyfer yr asesiad mwyaf diweddar.

Yn adran gyntaf yr adroddiad, mae perfformiad cyfartalog pob dysgwr yn y grŵp i'w weld fesul tymor ysgol, gan adael i athrawon olrhain eu cynnydd dros gyfnod. Gallwch hofran dros bob pwynt ar y siart i weld sawl dysgwr a sawl asesiad sy'n rhan o'r pwynt hwnnw. Mae ail adran yr adroddiad hefyd yn crynhoi data yr holl bwyntiau, er hwylustod.

Yn yr adran gyntaf, y sgwariau du sy'n dangos sgôr cynnydd y grŵp ar gyfartaledd. Mae'r bandiau lliw a'r pwyntiau ar y siart yn rhoi syniad cyflym yn weledol o gynnydd y grŵp hwn o ddysgwyr o gymharu â chynnydd y garfan gyfan ledled Cymru. Y llinell doredig sy'n dangos perfformiad cyfartalog grŵp blwyddyn y dysgwyr a'r gwyrdd tywyll yw amrediad sgoriau pob dysgwr yng Nghymru. Bydd tua 50% o ddysgwyr yn dod o fewn y band yn y canol, sy'n cyfateb i sgôr cynnydd sydd rhwng 85 a 115 i'r rhan fwyaf o ddysgwyr.

Bwriad yr adroddiad yw dangos mewn ffordd weledol hynt y grŵp dros amser, gan roi cromlin cynnydd i gyfeirio ati a chreu delwedd glir o gynnydd holl ddysgwyr Cymru. Gan fod sawl dysgwr gwahanol yn ffurfio'r grŵp, mae'n rhoi braslun o'r grŵp. Noder os mai cyfran fechan yn unig o'r grŵp sydd mewn un tymor, ni fydd data y tymor hwnnw mor sefydlog a chyson â'r

pwyntiau eraill pan wnaeth y grŵp i gyd asesiad.

Yn unol â'r arfer gorau yn rhyngwladol, mae'r asesiadau personol yn cael eu hailsafoni bob 4 i 5 mlynedd. Wrth ailsafoni, bydd cromliniau cynnydd yr adroddiad hwn yn cael eu diweddaru i adlewyrchu sut mae cyrhaeddiad cenedlaethol yn datblygu ac ehangu. Bydd pwyntiau pob asesiad, hen a newydd, yn ymddangos ar y gromlin newydd, felly mae pwyntiau asesiadau blaenorol yn gallu edrych fel pe baent wedi symud rhyw fymryn o'u cymharu â hen adroddiadau. Byddwn yn rhoi gwybod i ysgolion am unrhyw broses ailsafoni.

Yn y tabl yn nhrydedd adran yr adroddiad, ar y gwaelod, mae enwau pob dysgwr yn y grŵp ynghyd â'u henwau defnyddwyr yn Hwb a manylion yr asesiadau mwyaf diweddar a wnaed ganddynt. Mae gwybodaeth gefndirol hefyd ar gael yma i athrawon ei defnyddio wrth ddadansoddi'r adroddiadau, sef yr amser a dreuliwyd ar yr asesiad, nifer y cwestiynau a gafwyd, a'r amser cyfartalog a dreuliwyd fesul cwestiwn. Mae'r sgoriau cynnydd a'r sgoriau safonedig ar sail oedran hefyd ar gael yn y tabl hwn.

### 5.9.8 Proffil o sgiliau'r grŵp (dadansoddi cryfderau a meysydd datblygu at y dyfodol)

Dim ond ar gyfer yr asesiadau Rhifedd Gweithdrefnol a Darllen y mae'r adroddiad hwn ar gael. Rhaid cael grŵp gydag o leiaf o **8 o ddysgwyr** i gynhyrchu'r adroddiad hwn.

Mae modd cyrraedd yr adroddiad hwn o'r enw byr sydd iddo ar ddewislen yr adroddiadau grŵp: Proffil o sgiliau'r grŵp (dadansoddiad).

Yn y siart ar frig yr adroddiad ceir pum disgrifiad sgiliau sydd yn gryfderau i'r grŵp a phump sy'n feysydd i'w datblygu at y dyfodol. Er mwyn i ddisgrifiad sgiliau gael ei gynnwys yn yr adroddiad, rhaid iddo gwrdd â'r gofynion isod:

- Rhaid bod o leiaf 8 o ddysgwyr gwahanol yn y grŵp wedi cael cwestiynau yn y maes.
- Rhaid bod o leiaf 3 chwestiwn gwahanol sy'n ymwneud â'r maes wedi'u defnyddio.

O'r disgrifiadau sgiliau sy'n cwrdd â'r gofynion hyn, bydd y rhai sydd â'r nifer fwyaf o gwestiynau cywir yn cael eu nodi fel cryfder a'r rhai sydd â'r nifer fwyaf o atebion anghywir yn cael eu nodi fel maes sydd i'w ddatblygu ymhellach.

Dyma benawdau'r siart:

**Elfen:** yn fras, dyma feysydd y cwricwlwm sy'n cyfateb i'r disgrifiad sgiliau – gallai'r nifer sy'n ymddangos amrywio gan ddibynnu ar y cryfderau a nodwyd ar y siart.

**Disgrifiad sgiliau:** yma rhestrir y pum cryfder pennaf a'r pum maes i'w datblygu ymhellach (wedi'u grwpio yn ôl elfen). Mae testun y disgrifiad sgiliau yn ddolen gyswllt i gwestiwn enghreifftiol sy'n berthnasol i'r sgìl. Y disgrifiad sgiliau sy'n rhoi'r wybodaeth mwyaf manwl am gynnwys cwestiynau'r asesiad (mae tua 60 o ddisgrifiadau unigryw o'r fframwaith fesul pwnc).

**Sgôr cynnydd:** yn yr adran hon, ceir perfformiad cyfartalog y grŵp fesul y disgrifiad sgìl a nodwyd. Mae'r adroddiad yn ystyried yr holl gwestiynau a gafodd y dysgwyr mewn perthynas â'r disgrifiad sgìl perthnasol ac yn amcangyfrif lefel y gallu. Mae'r cylchoedd yn cynrychioli cyfartaledd y grŵp.

O dan y siart mae gwybodaeth i helpu dehongli'r wybodaeth, yn enwedig ar yr adegau hynny lle nad oes gwahaniaeth clir rhwng y cryfderau a'r meysydd datblygu. Mae'n rhestru:

- Y pum maes lle gwelwyd y cryfder mwyaf i'r grŵp

- Y pum maes lle gall fod angen eu datblygu at y dyfodol.

O dan hynny, mae taenlen y mae modd ei lawrlwytho sy'n rhoi'r dewis i weld rhagor o fanylion am gyrhaeddiad y dysgwyr unigol yn y grŵp. Mae'r daenlen yn cynnwys tabiau ar gyfer y pum cryfder a'r meysydd datblygu a welwyd yn yr asesiad/au yn y cyfnod dan sylw. Mae'r daenlen hefyd yn cynnwys blaenddalen sy'n rhoi gwybodaeth a throsolwg o'r cynnwys. Mae gweddill y wybodaeth i'w chael yn y tabiau, gyda phob tab yn ymwneud ag un o'r 10 disgrifiad sgìl a nodwyd yng nghorff yr adroddiad. Dyma'r hyn mae'r tabiau yn ei ddangos:

- Mae'r tabiau 'Maes cryfder' yn cynnwys y data ar gyfer y disgrifiadau sgiliau y gwnaeth y grŵp orau ynddynt. Yr un â'r rhif uchaf sydd â'r perfformiad gorau ar y cyfan.
- Mae'r tabiau 'Maes datblygu' yn cynnwys y data ar gyfer y disgrifiadau sgiliau hynny y gwnaeth y grŵp leiaf cystal ynddynt. Yr un â'r rhif uchaf sydd â'r perfformiad gwannaf ar y cyfan.
- Yn y rhesi mae'r holl asesiadau a wnaed gan y dysgwyr yn y grŵp. Os bydd dysgwr wedi gwneud dau asesiad yn ystod y cyfnod, gall ymddangos yma ddwywaith.
- Mae colofn ar gyfer pob cwestiwn a gafodd y grŵp o'r disgrifiad sgìl dan sylw.
- Mae'r rhifau yn y golofn yn cyfleu a gafodd y dysgwyr yr ateb yn gywir (1) neu'n anghywir (0).
    - Mae'r celloedd sy'n cynnwys **1** wedi'u lliwio'n wyrdd os oedd disgwyl i'r dysgwr gael yr ateb yn gywir o dan yr amcangyfrif o'i allu yn yr asesiad ac fe gafodd y cwestiwn yn gywir.
    - Mae'r celloedd sy'n cynnwys **0** wedi'u lliwio'n goch os oedd disgwyl i'r dysgwr gael yr ateb yn gywir o dan yr amcangyfrif o'i allu yn yr asesiad ond fe gafodd y cwestiwn yn anghywir.
- Ni fydd y celloedd wedi'u lliwio ar gyfer y dysgwyr hynny lle nad oedd digon o dystiolaeth ar gael i greu adroddiad adborth y dysgwr.
- Mae'r cwestiynau wedi'u trefnu o'r symlaf i'r anoddaf, gan fynd o'r chwith i'r dde.
- Ar ochr dde'r tabl, mae colofn sy'n nodi cyfanswm nifer y cwestiynau a gafodd pob dysgwr ar gyfer y disgrifiad sgìl hwnnw.
- Mae cyfanswm nifer y cwestiynau a gafodd pob dysgwr ar gyfer y disgrifiad sgìl hefyd wedi'i nodi ar waelod y tabl.

Yn yr adran 'Aelodau'r grŵp a'u sgoriau' ceir enwau aelodau'r grŵp ynghyd â'u cyfrifon Hwb, faint o amser a dreuliwyd ar yr asesiad, nifer y cwestiynau a gafwyd, a'r amser cyfartalog a dreuliwyd fesul cwestiwn, a hynny oll fel gwybodaeth gefndirol i'r athrawon wrth ystyried yr adroddiadau. Mae modd lawrlwytho'r tabl hwn ar ffurf taenlen.

Mae'r sgoriau safonedig a'r sgoriau safonedig ar sail oedran ar gael i'w gweld yn yr adroddiad hwn.


#### 5.9.9 Rhedeg ymholiad

Dyma nodwedd sy'n galluogi staff sydd â'r swyddogaeth 'Gweinyddu' i olrhain faint o ddysgwyr sydd:
- heb wneud asesiad y flwyddyn academaidd hon
- wedi gwneud asesiad y flwyddyn academaidd hon
- wedi gwneud asesiad y tymor academaidd hwn
- wedi gwneud un asesiad yn unig y flwyddyn academaidd hon
- wedi gwneud dau asesiad y flwyddyn academaidd hon.

I redeg ymholiad, dewiswch 'Rhedeg ymholiad' o wefan yr asesiadau.

Dewiswch y meini prawf, y grwpiau blwyddyn a'r dosbarthiadau a ddymunir o'r cwymplenni, a

dewiswch ‘Rhedeg ymholiad’.



# 6. Y fersiynau wedi'u haddasu o'r asesiadau personol

Cafodd hygyrchedd yr asesiadau personol i ddysgwyr ei ystyried fel rhan o'r gwaith o'u cynllunio; disgwylir, felly, y bydd bron pob dysgwr yn gallu eu gwneud heb drefniadau arbennig. Fodd bynnag, lle bo angen fersiynau hygyrch, mae'r rhain ar gael, ac mae modd gwneud y trefniadau mynediad arferol.

## 6.1 Y fersiynau hygyrch sydd ar gael

Lle bo modd, dylai dysgwyr gael cymorth i wneud yr asesiadau yn yr un modd ag y maent yn cael cymorth i weithio ar gyfrifiadur yn yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd.

Mae dwy fersiwn wedi'i haddasu ar gael o'r Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol):

- fersiwn print bras wedi'i addasu (PBA) o'r asesiad ar y sgrin, sy'n cynnwys rhai cwestiynau sydd wedi'u geirio neu eu cysodi'n symlach, e.e. y rhai sydd â diagramau cymhleth. Mae'r rhain yn cyfateb i'r fersiynau print bras wedi'i addasu o'r profion papur blaenorol, a dylent gael eu defnyddio gan ddysgwyr a fyddai'n defnyddio'r fersiynau hynny fel arfer.

- fersiwn Braille o'r asesiad ar y sgrin, sydd wedi'i llunio i weithio gydag offer darllen sgrin (gweler isod) ac sydd hefyd yn galw am ddefnyddio diagramau cyffwrdd i ateb rhai cwestiynau. Mae'r rhain yn cyfateb i fersiynau Braille y profion papur blaenorol, a dylent gael eu defnyddio gan ddysgwyr a fyddai'n defnyddio'r fersiynau hynny fel arfer. Bydd angen defnyddio darllenydd sgrin neu gael oedolyn i helpu'r dysgwr i ddarllen y cwestiynau yn y fersiynau hyn.

Mae asesiad ymgyfarwyddo ar gael ar gyfer y fersiwn Braille sy'n cynnwys y defnydd o ddiagram cyffwrdd. Dylai'r dysgwr gael y llyfryn diagramau cyffwrdd perthnasol wrth law wrth wneud yr asesiad ymgyfarwyddo. (Gweler adran 6.3 isod ar sut i archebu'r diagramau cyffwrdd.) Mae gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r asesiadau ymgyfarwyddo ar dudalen 26.

O ran y dysgwyr sy'n defnyddio darllenydd sgrin neu sydd ag oedolyn sy'n darllen y cwestiynau iddynt, caniateir defnyddio propiau fel gridiau rhif Braille i gofnodi'r rhifau sy'n codi yn y cwestiwn. Caniateir defnyddio propiau eraill hefyd, fel clociau neu gloriannau cyffwrdd, lle bo hynny'n golygu bod llai o bwysau ar y dysgwr i gofio rhifau, ac os ydynt yn cael eu defnyddio fel arfer yn yr ystafell ddosbarth. Ni ddylai'r cymorth hyn helpu'r dysgwr gyda'r rhifedd sy'n codi yn y cwestiynau.

Mae dwy fersiwn wedi'i haddasu ar gael o'r Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu):

- fersiwn print bras wedi'i addasu (PBA) o'r asesiad ar y sgrin, sy'n cynnwys rhai cwestiynau sydd wedi'u geirio neu eu cysodi'n symlach, e.e. y rhai sydd â diagramau cymhleth. Mae'r rhain yn cyfateb i'r fersiynau print bras wedi'i addasu o'r profion papur blaenorol, a dylent gael eu defnyddio gan ddysgwyr a fyddai'n defnyddio'r fersiynau hynny fel arfer.

- fersiwn Braille o'r asesiad ar y sgrin, sydd wedi'i llunio i weithio gydag offer darllen sgrin (gweler isod). Mae'r rhain yn cyfateb i fersiynau Braille y profion papur blaenorol, a dylid eu defnyddio gan ddysgwyr a fyddai'n defnyddio'r fersiynau hynny fel arfer. Bydd angen defnyddio darllenydd sgrin neu gael oedolyn i helpu'r dysgwr i ddarllen y cwestiynau yn y fersiynau hyn. Yn y fersiwn wedi'i haddasu o'r asesiadau hyn, caiff y ffeiliau sain sydd wedi'u cynnwys yn y cwestiynau ar sail deunyddiau ysgogi eu darllen yn awtomatig i'r dysgwr.

Mae'r asesiadau Rhifedd (Gweithdrefnol) yn addas i ddysgwyr sydd â nam ar eu clyw neu ofynion hygyrchedd tebyg drwy ddefnyddio'r dull asesu ac amserlennu arferol, heb eu haddasu. O ran y cwestiynau ar sail deunyddiau ysgogi sydd yn yr asesiadau Rhifedd (Rhesymu), mae trawsgrifiadau PDF ar gael o destunau'r cwestiynau i'r oedolyn sy'n helpu'r dysgwr. Mae croeso i oedolion ddefnyddio iaith arwyddion i arwyddo'r cwestiwn cyfan neu unrhyw ran ohono ac i gofnodi'r ateb mae'r dysgwr yn ei arwyddo, os yw'n briodol ac os dyna'r arfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r trawsgrifiadau PDF ar gael drwy gysylltu â'r ddesg gymorth, a dylid eu harchebu cyn dechrau'r asesiad.

Mae asesiad ymgyfarwyddo ar gael i ddefnyddwyr y fersiynau print bras wedi'i addasu a'r Braille. Mae rhagor o wybodaeth am sut i ddefnyddio'r asesiadau ymgyfarwyddo ar gael ar dudalen 26.

Mae dwy fersiwn wedi'i haddasu ar gael o'r Asesiadau Personol Darllen:

- fersiwn print bras wedi'i addasu (PBA) o'r asesiad ar y sgrin, lle tynnwyd rhai o'r testunau sy'n cynnwys llawer o ddeunydd gweledol. Mae'r rhain yn cyfateb i'r fersiynau print bras wedi'i addasu o'r profion papur blaenorol, a dylent gael eu defnyddio gan ddysgwyr a fyddai'n defnyddio'r fersiynau hynny fel arfer
- fersiwn Braille o'r asesiad ar y sgrin, sy'n defnyddio llyfrynnau Braille o'r testunau a'r cwestiynau. Mae'r rhain yn cyfateb i fersiynau Braille y profion papur blaenorol, a dylent gael eu defnyddio gan ddysgwyr a fyddai'n defnyddio'r fersiynau hynny fel arfer. Ar gyfer y fersiynau hyn, bydd angen defnyddio darllenydd sgrin neu gael oedolyn i helpu'r dysgwr i nodi'r atebion ar y sgrin. Mae llyfrynnau Braille ar gael mewn Braille gradd 1 a gradd 2.


Mae asesiad ymgyfarwyddo ar gael ar gyfer y fersiwn Braille sy'n defnyddio testunau a chwestiynau Braille. Dylai'r dysgwyr gael y llyfryn perthnasol wrth law wrth wneud yr asesiad ymgyfarwyddo. (Gweler adran 6.3 isod ar sut i archebu'r llyfrynnau Braille.) Mae gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r asesiadau ymgyfarwyddo ar gael ar dudalen 26.

Dilynwch y canllawiau isod wrth gynnal asesiad Braille.


- Ni ddylid helpu'r dysgwr gyda'r Braille wrth ddarllen y testunau na'r cwestiynau sydd yn y llyfrynnau.
- Mae'n iawn helpu'r dysgwr gyda'r Braille wrth ddarllen enwau pobl neu leoedd.
- Mae'n iawn helpu'r dysgwr gyda'r cywasgiadau Braille, yn ôl yr angen.
- Mae'r cynorthwywr yn cael darllen unrhyw destun sydd ar y sgrin.
- Mae'r cynorthwywr yn cael nodi'r ateb a roddir gan y dysgwr ar unrhyw ffurf, e.e. mewn cwestiwn aml ddewis, os yw'n dweud beth yw'r ateb yn hytrach na'n defnyddio'r llythyren sy'n cynrychioli'r dewis hwnnw.
- Mae'n iawn i'r cynorthwywr dynnu'r testunau a'r cwestiynau allan o'r prif lyfryn er mwyn eu rhoi nhw i'r dysgwr.

Noder nad yw'r drefn y mae'r testunau'n ymddangos yn y llyfrynnau yn cyfleu anhawster y testun na'r cwestiynau cysylltiedig.


I ddefnyddio'r fersiynau wedi'u haddasu o'r asesiadau, dylech fynd i wefan yr asesiadau, a dewis 'Trefnu asesiad' o dan y sgrin 'Asesiadau'.




Yn y cwymplenni, dewiswch yr asesiad priodol sydd wedi'i addasu, e.e. 'Rhifedd (Gweithdrefnol) – defnyddiwr PBA', 'Darllen Cymraeg – defnyddiwr PBA' neu 'Rhifedd (Gweithdrefnol) – defnyddiwr Braille', dewiswch yr iaith a'r dyddiad, ac yna dewiswch 'Ychwanegu dysgwyr'.




Dewiswch y grŵp blwyddyn a/neu'r dosbarth priodol, a dewis 'Chwilio'.





Dewiswch enwau'r dysgwyr gan ddefnyddio'r blychau ticio, a dewis 'Ychwanegu dysgwyr'.




Gwnewch unrhyw newidiadau o ran 'Anhawster y cwestiwn cyntaf'* neu'r 'Opsiynau hygyrchedd'** (sgrinlun isod) yn ôl yr angen, ac yna dewiswch 'Trefnu'r asesiad hwn'.

* Drwy ddefnyddio'r blwch 'Anhawster y cwestiwn cyntaf', gallwch addasu lefel anhawster y cwestiwn cyntaf ar gyfer unrhyw ddysgwyr sy'n perfformio'n sylweddol islaw lefel eu blwyddyn gwricwlaidd. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio'r blwch hwn.
** Ceir cyngor am yr opsiynau hygyrchedd yn adran 6.2.2 isod.




## 6.2 Trefniadau mynediad

### 6.2.1 Cymryd egwyl a'r amser a ganiateir

Nid oes gan yr asesiadau personol hyd penodol, er bod lleiafrif a mwyafrif o ran nifer y cwestiynau – gweler tudalen 7. Bydd yr asesiad yn stopio pan fydd y system wedi gwneud penderfyniad dibynadwy am allu'r dysgwr o fewn y lleiafrif a'r mwyafrif o gwestiynau a ganiateir. Fel arfer, mae'r Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol) yn para rhwng 25 a 30 munud, y rhai Rhifedd (Rhesymu) yn para rhwng 30 a 35 munud, a'r rhai Darllen yn para rhwng 20 a 40 munud (gan ddibynnu ar ba mor gyflym mae'r dysgwr yn gweithio). Gall hyn fod dipyn yn hirach i ddysgwyr sy'n defnyddio'r fersiynau wedi'u haddasu. Os ydych o'r farn bod angen egwyl ar y dysgwr er mwyn iddo berfformio hyd eithaf ei allu, gellir oedi'r asesiad gan ddefnyddio'r sgrin hwyluso ar y wefan. Gall y dysgwr allgofnodi a mewngofnodi eto a bydd yn ailgydio yn yr asesiad ar y pwynt y'i gadawodd. Mae'n bwysig bod yr asesiad yn cael ei oedi yn ystod yr egwyl rhag ofn i'r dysgwr gael mynediad ato o ddyfais arall.

**Rhaid cwblhau'r asesiad ar yr un diwrnod ag y'i dechreuwyd.** Caiff unrhyw asesiad anorffenedig (h.y. asesiad a ddechreuwyd ond na orffennwyd) ei gyflwyno'n awtomatig am 5p.m. ar y diwrnod y cafodd ei ddechrau. Gan nad oes hyd penodol i'r asesiadau, nid yw'r cysyniad o roi amser ychwanegol yn berthnasol. Yr athrawon sy'n penderfynu faint o amser i'w roi i'r dysgwr gwblhau ei asesiad ar sail yr hyn a wneir fel arfer yn y dosbarth ac er lles y dysgwr. Os nad oes modd cwblhau'r asesiad ar yr un diwrnod, dylid canslo'r asesiad.

### 6.2.2 Man tawel

Bydd rhai o'r dysgwyr yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio am gyfnod estynedig mewn ystafell ddosbarth neu ystafell TGCh, er enghraifft y dysgwyr hynny sy'n defnyddio dyfais cymorth clyw neu gyfarpar cynorthwyol i wrando, a byddai'n fuddiol iddynt wneud eu hasesiad mewn man tawel. Dylid darparu hynny lle bo modd a lle bo'n ymarferol, yn unol â'r hyn sy'n arferol i'r dysgwr yn y dosbarth.

### 6.2.3 Newid lliw

Wrth drefnu asesiad i ddysgwr, mae'n bosibl dewis o blith nifer o opsiynau gwahanol o ran lliw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- testun du a chefndir lliw hufen
- testun glas a chefndir gwyn
- testun du a chefndir melyn
- testun du a chefndir gwyn
- testun melyn a chefndir du
- testun glas golau a chefndir du
- testun du a chefndir gwyrdd golau

- testun du a chefndir magenta golau

Nid yw’r dewisiadau sy’n defnyddio testun golau ar gefndir tywyll ar gael ar hyn o bryd, er yr hyderwn y cânt eu cyflwyno cyn pen y flwyddyn academaidd hon. Yn y cyfamser, dylid defnyddio hidlyddion sgrin i fodloni gofynion y dysgwyr hyn. Bydd unrhyw ddysgwyr a oedd eisoes wedi dewis y gosodiadau hyn yn gweld testun du gyda chefndir magenta golau. Cewch osod y dewisiadau lliw wrth drefnu’r asesiadau yng ngwefan yr asesiadau, a hynny gan ddefnyddio eicon yr olwyn a welir yn y sgrinlun isod.




Dylai’r lliw a ddewisir fod yn unol â’r hyn y mae’r dysgwr yn ei ddefnyddio yn y dosbarth. Efallai yr hoffai athrawon holi eu dysgwyr cyn yr asesiad er mwyn iddynt gael dewis y cynllun lliwiau mwyaf priodol ar eu cyfer. Mae’r asesiadau ymgyfarwyddo yn gyfle da i’r dysgwyr arbrofi, gan bori’r opsiynau lliw sydd ar gael gyda’u troshaen lliw personol, a chael trafodaeth ddeallus â’u hathrawon. Mae’n siŵr y bydd angen cymorth i wneud hyn ar ddysgwyr ifanc, gan staff neu oedolyn arall.

Ar hyn o bryd, mae’r asesiad wedi’i osod fel nad oes troshaen lliw ar y delweddau. Mae hyn oherwydd y gallai’r droshaen wneud i unrhyw lun lliw ymddangos yn llai clir ac felly’n llai hygyrch. Er enghraifft, gallai troshaen felen ar ddelwedd felen olygu nad yw’r ddelwedd yn glir o gwbl. Os nad yw’r trefniant hwn yn addas i’r dysgwr, gellir defnyddio troshaenau lliw ar sgrin y cyfrifiadur neu’r gliniadur (er na fyddai hyn yn gweithio ar gyfer dyfais fel tabled/llechen) neu gall y dysgwr ddefnyddio lensys hidlo lliw. Unwaith eto, dylai’r dull a ddewisir adlewyrchu’r arfer ar gyfer y dysgwr yn y dosbarth.

Nid oes troshaen lliw ar y testunau darllen yn yr Asesiadau Personol Darllen Cymraeg a Saesneg. Bydd lliw cefndir y testunau darllen yn cyd-fynd â’r cynllun lliw a ddewiswyd. Felly, dylech fod yn ymwybodol y gallai’r testunau darllen fod yn anhygyrch os ydych yn dewis opsiwn sydd â chefndir tywyll, gan y bydd y testun du yn ymddangos ar ben cefndir tywyll.

## 6.3 Defnyddio meddalwedd darllen sgrin

Mae’r Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol) a Rhifedd (Rhesymu) wedi’u cynllunio i fod yn gydnaws â meddalwedd darllen sgrin ac maent wedi cael eu profi â JAWS (*Job Access With Speech*) ac â NVDA (*NonVisual Desktop Access*).

Ar hyn o bryd, argymhellwn fod NVDA yn cael ei ddefnyddio wrth lywio gyda’r bysellfwrdd yn unig, gan nad yw’n gweithio’n gyson gyda llygoden/cyrchydd.

Yn yr Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol) a Rhifedd (Rhesymu) mae testun amgen (*alt text*) wedi’i ychwanegu at y delweddau, lle bo’n briodol. Lle mae nodiant mathemategol yn cael ei ddefnyddio, e.e. wrth ddangos ffracsiynau, defnyddiwyd rhaglen strwythurol fewnol (MathML). Bydd MathML yn cael ei ddarllen gan JAWS ac NVDA os yw’n cael ei ddefnyddio gyda phorwyr Microsoft Edge neu Google Chrome.

I gael gwybodaeth am y testun amgen sy’n gysylltiedig â’r delweddau, sicrhewch fod y gosodiadau personol yn JAWS wedi’u ffurfweddu fel hyn:

- *Graphics (All/Tagged/None)* – dyma sy'n ffurfweddu pa ddelweddau sydd i'w hadrodd gan JAWS. Y gosodiad diofyn (cywir) yw '*All*'.
- *Graphics recognise by (Title/Alt attribute/OnMouseOver/Longest/Custom search)* – dyma sy'n ffurfweddu pa destun y dylid ei siarad gan JAWS pan fydd yn dod ar draws delwedd. Y gosodiad diofyn (cywir) yw '*Alt attribute*'.

Rhaid i ddefnyddwyr NVDA lawrlwytho a ffurfweddu'r ategyn MathCat, sydd ar gael am ddim, a hynny i alluogi'r rhaglen i ddarllen a dehongli'r cynnwys MathsML. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o'r ddolen hon: https://addons.nvda-project.org/addons/MathCAT.en.html. Bydd angen llwytho pecyn llais Cymraeg synthetig i allu ei ddefnyddio i ddarllen y Gymraeg.

Yn yr asesiadau Darllen, mae'n iawn i ddysgwyr sy'n defnyddio'r fersiynau Braille ddefnyddio meddalwedd darllen sgrin ar gyfer y testun sydd ar y sgrin. Ni chaniateir hynny ar gyfer y darnau darllen na'r cwestiynau. Dylid defnyddio darllenydd sgrin os yw'n adlewyrchu'r arfer yn yr ystafell ddosbarth. Bydd angen trefnu fersiwn Braille o'r asesiad i'r dysgwyr hyn. Gweler y cyfarwyddiadau uchod am sut i ddewis y fersiwn hon ar gyfer y dysgwr.

**Noder:** Er mwyn i ddysgwyr sy'n defnyddio'r fersiynau Braille allu gwneud yr asesiadau, bydd angen diagramau cyffwrdd ar gyfer yr asesiadau Rhifedd (Gweithdrefnol) a llyfrynnau Braille ar gyfer yr asesiadau Darllen. Gallwch ofyn am y rhain o Ddesg Gymorth yr Asesiadau – ffôn: 029 2026 5099, neu e-bost: cymorth@asesiadaupersonol.cymru. Dylid caniatáu pythefnos i'r deunyddiau eich cyrraedd chi.

**Noder:** Mae atalnod llawn gwyn ar ddechrau rhai o'r cwestiynau yn yr Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol) nad oes modd eu gweld ar y cynllun sgrin safonol. Mae angen yr atalnod hwn at ddibenion fformadu. Bydd darllenydd sgrin yn sylwi ar hyn ac yn darllen 'atalnod llawn' ar ddechrau'r cwestiwn. Dylid rhybuddio'r dysgwyr am hyn a dweud wrthynt am ei anwybyddu.

**Noder:** Caiff unrhyw newid neu ddiweddariad o ran defnyddio dyfais darllen sgrin ei gyhoeddi ar dudalen Newyddion gwefan yr asesiadau personol.

## 6.4 Offer chwyddo

Cynlluniwyd yr asesiadau personol i weithio gyda'r offer chwyddo sydd eisoes ar gael yn nyfeisiau'r dysgwyr (e.e. Windows Magnifier neu'r nodwedd nesáu/pellhau sydd yn y porwr).

Dylai'r rhain gael eu defnyddio yn yr un ffordd ag y mae'r dysgwr yn eu defnyddio yn y dosbarth. Wrth ddefnyddio fersiwn chwyddedig, mae'n siŵr y bydd angen mwy o sgrolio ac felly efallai y bydd angen cymorth gyda hynny ar y dysgwr (hynny yw, wrth ddefnyddio nodwedd chwyddo'r porwr – mae Magnifier yn sgrolio'n awtomatig os defnyddir llygoden i lywio). Mae'r asesiadau wedi'u cynllunio i roi nodyn atgoffa pan fydd angen sgrolio'n fertigol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen sgrolio'n llorweddol hefyd os bydd dysgwr yn defnyddio nodwedd chwyddo'r porwr y tu hwnt i bwynt arbennig.

I gael y profiad gorau wrth nesáu/pellhau yn y porwr, dylai'r dysgwyr hynny sy'n defnyddio peiriannau Windows ddefnyddio Microsoft Edge gyda chydraniad sgrin o 1920 × 1080. Drwy ddefnyddio sgrin 27 modfedd, gall dysgwr nesáu hyd at 240 y cant, sy'n cyfateb i faint ffont pwynt 32, a thrwy ddefnyddio sgrin 15 modfedd, bydd dysgwr yn gallu nesáu hyd at 180 y cant, sy'n cyfateb i faint ffont pwynt 26 heb fod angen sgrolio'n llorweddol. Mae defnyddio Chrome yn lleihau'r maint nesáu mwyaf cyn bod angen sgrolio'n llorweddol i 200 y cant, sy'n cyfateb i faint ffont pwynt 28, a 175 y cant, sy'n cyfateb i faint ffont pwynt 26, yn yr un drefn o ran maint sgrin.

Wrth ddefnyddio iPad, mae gosodiadau gwahanol ar gael i gynyddu maint y testun i ddysgwyr:

- Mae'r gosodiad *Larger Text* i'w weld yn *Settings* > *Accessibility* > *Display & Text Size* > *Larger Text*. Agorwch *Larger Accessibility Sizes* a llusgwch y llithrydd i ddewis maint y ffont yr hoffai'r dysgwr ei gael.
- Mae'r gosodiad *Zoom* i'w weld yn *Settings* > *Accessibility* > *Zoom*. Ar ôl troi'r gosodiad ymlaen, tapiwch y sgrin dair gwaith gyda thri bys i weld y ddewislen nesáu/pellhau. Yma, gallwch wneud y canlynol:
    - nesáu
    - newid rhwng nesáu/pellhau'r ffenestr a'r sgrin lawn – tapiwch *Choose Region*
    - ailfeintio'r lens nesáu/pellhau – (*Window Zoom*) tapiwch *Resize Lens*, ac yna llusgwch unrhyw un o'r dolenni crwn sy'n ymddangos
    - defnyddio hidlydd – tapio *Choose Filter*, ac yna dewis o blith gwrthdroi, graddlwyd, graddlwyd gwrthdro, neu golau isel
    - dangos y rheolydd nesáu/pellhau – tapio *Show Controller*.


Safari sy'n rhoi'r profiad gorau o ran chwyddo ar iPad gan y gall dysgwyr ddewis gweld y testunau darllen yng Ngwedd y Darllenydd (*Reader View*). Mae Gwedd y Darllenydd yn caniatáu i ddysgwr newid y ffont, maint y ffont, lliw'r ffont a'r cefndir.

I agor y testun yng Ngwedd y Darllenydd, agorwch yr asesiad yn Safari a dewiswch y botwm Darllenydd ar ochr chwith y bar cyfeiriad. Bydd hyn wedyn yn dangos dwy lythyren A mewn priflythrennau ar ochr dde y bar cyfeiriad. Tapiwch ar y llythrennau A i ddangos dewislen y ffontiau – yma, gallwch leihau neu gynyddu maint y ffont (drwy ddewis y llythrennau A ar frig y ddewislen), newid lliw a ffont y cefndir, neu ddewis ffont arall o'r rhestr. I adael Gwedd y Darllenydd, tapiwch y botwm Darllenydd eto i ddychwelyd at y cwestiwn.

Efallai y bydd angen trefnu fersiwn print bras wedi'i addasu o'r asesiad i'r dysgwyr hynny sy'n defnyddio'r fersiwn wedi'i chwyddo, gan ddibynnu ar y graddau y mae angen iddynt chwyddo'r testun. Er enghraifft, gall chwyddo cryn dipyn ei gwneud hi'n anodd iawn darllen tablau cymhleth, ac felly mae fersiynau symlach wedi'u datblygu ar gyfer y dysgwyr hyn. Gweler y cyfarwyddiadau yn yr adran uchod ar gyfer sut i ddewis y fersiwn hon ar gyfer y dysgwr.

## 6.5 Llywio gan ddefnyddio'r Tab – Rhifedd (Gweithdrefnol)

Mae'r fysell Tab yn llwybr byr defnyddiol wrth gynnal yr asesiadau personol. Gellir dod o hyd iddi ar y bysellfwrdd a gellir ei defnyddio i weithio drwy'r asesiadau. Mae'r ddelwedd isod yn dangos enghraifft.




Gallwch ddefnyddio'r Tab i fynd drwy gwestiynau'r asesiadau Rhifedd (Gweithdrefnol):

- pwyswch Tab i ddewis y blwch ateb
- nodwch ateb
- pwyswch Tab a dewiswch Enter i agor eicon 'y byd' a gweld y cwestiwn yn yr iaith arall

- pwyswch Tab a dewiswch Enter i gau'r naidlen
- pwyswch Tab i ddewis y botwm 'Nesaf'
- pwyswch Enter i symud at y cwestiwn nesaf.

## 6.6 Llywio gan ddefnyddio'r Tab – Rhifedd (Rhesymu)

Gallwch ddefnyddio'r Tab i fynd drwy'r cwestiynau a'r testunau yn yr Asesiadau Personol Rhifedd (Rhesymu) hefyd:

- pwyswch Tab i ddewis y blwch ateb
- nodwch ateb
- pwyswch Tab a dewiswch Enter i agor eicon 'y byd' a gweld y cwestiwn yn yr iaith arall
- pwyswch Tab a dewiswch Enter i gau'r naidlen
- pwyswch Tab i ddewis y botwm 'Nesaf'.

**Mae cliwiau gan rai o'r cwestiynau.**

Os yw'r ateb yn anghywir:

- mae naidlen yn ymddangos, felly pwyswch Enter i weld cliw
- pwyswch Tab i ddewis y blwch ateb
- rhowch ateb i mewn.

Os nad yw'r dysgwr yn nodi ateb, mae naidlen yn gofyn i'r dysgwyr a ydynt am roi cynnig arall arni:

- pwyswch Tab i symud drwy'r dewisiadau ('Ydw' neu 'Nac ydw')
- pwyswch Enter i gadarnhau eich dewis
- os yw'r dysgwr yn dewis rhoi cynnig arall arni, bydd naidlen arall yn ymddangos yn cynnig cliw
- pwyswch Tab i symud drwy'r dewisiadau ('Hoffwn' neu 'Na')
- pwyswch Enter i gadarnhau eich dewis.

Ar gyfer y cwestiynau sydd â sain, pwyswch Tab i ddewis y botwm chwarae/oedi:

- pwyswch Enter i oedi
- pwyswch Tab ac Enter i chwarae'r sain eto
- pwyswch Tab i ddewis llinell amser y sain
- defnyddiwch y bysellau saeth i fyny ac i lawr neu i'r chwith ac i'r dde i symud drwy linell amser y sain
- pwyswch Tab ac Enter i dawelu'r sain yn llwyr
- pwyswch Tab a defnyddiwch y bysellau saeth i fyny ac i lawr neu i'r chwith ac i'r dde i newid lefel y sain.

## 6.7 Llywio gan ddefnyddio'r Tab – Darllen

Gallwch ddefnyddio'r Tab i fynd drwy'r cwestiynau a'r testunau yn yr asesiadau Darllen hefyd:

- pwyswch Tab unwaith i ddewis 'Darllenwch y testun.'
- pwyswch y fysell Enter
- bydd naidlen y testun eisoes wedi'i dethol; defnyddiwch fysellau'r saethau i symud y ffenestr i fyny neu i lawr. Yn yr un modd, gallwch ddefnyddio'r saethau i symud ffenestr y testun i'r chwith ac i'r dde. Os yw'r sgrin yn ddigon mawr, bydd modd gweld y testun ochr yn ochr â'r cwestiwn. Os nad yw'r dysgwr eisiau gweld y testun ochr yn ochr â'r cwestiwn, tabiwch unwaith i ddewis 'Dadbinio'r ddeialog' a dewis Enter

- pwyswch Tab (ddwywaith os yw'r dewis pinio/dadbinio ar gael) i ddewis 'Cau'r ffenestr'
- pwyswch Enter i gau'r ffenestr
- pwyswch Tab i symud drwy'r dewisiadau ateb a phwyswch Enter i ddewis ateb
- pwyswch Tab i symud drwy'r ateb(ion) sy'n weddill a dewis y botwm 'Nesaf'
- pwyswch Enter i symud at y cwestiwn nesaf.

## 6.8 Iaith Arwyddion Prydain

Ar gyfer yr asesiadau Rhifedd (Gweithdrefnol) a Rhifedd (Rhesymu), gallwch ddefnyddio cymorth iaith arwyddion arferol y dysgwr i arwyddo unrhyw destun iddo, gan weithio ar gyflymder sy'n briodol i'r dysgwr. Gallwch arwyddo cwestiwn cyfan neu unrhyw ran o gwestiwn, a chofnodi unrhyw atebion iaith arwyddion os yw'n briodol, ac os dyna'r arfer yn y dosbarth. O ran yr Asesiadau Personol Darllen, caniateir defnyddio iaith arwyddion ar gyfer y cyfarwyddiadau, ond nid ar gyfer y darnau darllen na'r cwestiynau.

Bydd y dysgwyr hynny sy'n defnyddio ac yn dysgu drwy gyfrwng Iaith Arwyddion Prydain yn ddibynnol ar gael person cymwys i ddehongli'r asesiad ar eu cyfer, sy'n gallu gweithio ar lefel briodol i'r asesiad ac sy'n gyfarwydd â defnydd y dysgwr o'r arwyddion ar gyfer yr eirfa sy'n benodol i'r pwnc.

## 6.9 Cynnwys sain

Mae'n gyffredin iawn i ddysgwyr byddar gael trafferthion wrth ddefnyddio clustffonau i wrando ar sain, os ydynt yn defnyddio technoleg bersonol i glywed, megis cymorth clyw neu fewnblaniad yn y cochlea. Dylid cynnig trefniadau amgen i'r dysgwyr hynny, felly, gan gynnwys mewnbynnu'r sain yn uniongyrchol i'w cyfarpar clyw, a sicrhau bod modd addasu lefel y sain ar seinydd eu dyfais, a hynny os ydynt yn gyfarwydd â'r cyfarpar ac yn ei ddefnyddio fel arfer yn y dosbarth.

## 6.10 Ysgrifenyddion

Caniateir i oedolyn gofnodi atebion dysgwr os dyna'r math o gymorth a roddir fel arfer yn y dosbarth, neu os oes angen ysgrifennydd arno o ganlyniad i nam diweddar. Dim ond o dan yr amgylchiadau hyn y dylid defnyddio ysgrifennydd i roi cymorth i ddysgwr:

- os yw'r dysgwr yn defnyddio Braille
- os nad yw'r dysgwr yn gorfforol yn gallu defnyddio bysellfwrdd
- os oes nam echddygol (*motor*) ar y dysgwr neu os yw teipio atebion yn anghysurus iddo yn gorfforol neu'n feddyliol
- os yw'r dysgwr yn teipio'n eithriadol o araf.

## 6.11 Darllenwyr


Caniateir i oedolyn ddarllen unrhyw gwestiwn neu gyfarwyddyd sydd yn yr Asesiadau Personol Rhifedd (Gweithdrefnol) neu'r Rhifedd (Rhesymu). Caniateir darllen y cyfarwyddiadau i ddysgwyr yn yr Asesiadau Personol Darllen ond nid y testunau na'r cwestiynau. Noder fod gan y rhan fwyaf o borwyr y gallu i ddarllen yn uchel. Hynny yw, bydd y porwr yn darllen testun yn uchel os yw defnyddiwr yn dde-glicio ar unrhyw destun ar y sgrin ac yn dewis 'Darllen yn uchel'. Rhaid newid hyn ar bob dyfais yn unigol, gan ei fod yn nodwedd ar bob porwr. Dylai ysgolion sicrhau nad yw dysgwyr yn defnyddio'r nodwedd i gael y porwr i ddarllen y testunau iddynt.

## 6.12 Darllen yn uchel

Bydd rhai o'r dysgwyr yn gweithio'n fwy effeithiol os ydynt yn gallu clywed eu hunain yn darllen. Byddai angen nodi o flaen llaw pa ddysgwyr fyddai'n cael budd o'r dull hwn, fel bod modd cynnal yr asesiad yn y lleoliad mwyaf addas ar eu cyfer. Dylid darparu hynny lle bo modd a lle bo'n ymarferol, yn unol â'r hyn sy'n arferol i'r dysgwr yn y dosbarth.

## 6.13 Addasu anhawster y cwestiwn cyntaf i ddysgwr

Mae'r asesiadau wedi'u personoli, sy'n golygu y bydd y system yn dewis cwestiwn neu destun i'w gyflwyno i ddysgwr yn seiliedig ar ei ymateb i'r cwestiwn blaenorol. Mae hyn yn golygu y bydd yr asesiad yn addasu i lefel gallu'r dysgwr. Gosodir y cwestiwn cyntaf mewn asesiad ar sail grŵp blwyddyn cwricwlwm cenedlaethol presennol y dysgwr. Mae modd i staff newid anhawster y cwestiwn cychwynnol drwy ddewis grŵp blwyddyn gwahanol fel man cychwyn. Mae modd i staff newid hyn ar wefan yr asesiadau wrth drefnu asesiad i ddysgwr. Dim ond pan fo'n gwbl angenrheidiol y dylid defnyddio'r opsiwn hwn.




Noder nad oes man cychwyn haws i ddysgwyr ym Mlwyddyn 2. Mae pob dysgwr Blwyddyn 2 yn dechrau gyda chwestiwn hawdd, ac os bydd y cwestiwn cyntaf yn cael ei ateb yn anghywir, gofynnir y cwestiynau hawsaf yn y banc iddynt.

# 7. Y Ddesg Gymorth

## 7.1 Ymholiadau cyffredinol a chymorth

Os cewch unrhyw broblemau, bydd Desg Gymorth yr Asesiadau ar gael rhwng **8a.m.** a **5p.m.** – ffôn: **029 2026 5099** neu e-bost: cymorth@asesiadaupersonol.cymru.

Gall tîm y ddesg gymorth eich cynorthwyo drwy'r broses gyfan, gan gynnwys y canlynol:

- mewngofnodi i Hwb
- trefnu a hwyluso asesiadau
- dod o hyd i'r adborth a'r adroddiadau
- rhoi gwybod am broblemau TG neu broblem gyda'ch cysylltiad â'r rhyngrwyd.

Pan fyddwch yn ffonio'r ddesg gymorth, sicrhewch fod yr wybodaeth ganlynol wrth law:

- manylion cyswllt yr ysgol – rhif AdAS, enw cyswllt, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost
- categori'r broblem – e.e. mewngofnodi i Hwb, amserlennu, cysylltiad â'r rhyngrwyd
- symptomau, negeseuon gwall, disgrifiad o'r broblem.

Bydd tîm y ddesg gymorth yn ceisio dod o hyd i'ch problem ac yn eich cynghori am y camau i'w cymryd i'w datrys.

Os na fydd hynny'n bosibl, byddant yn nodi eich galwad ac yn cyfeirio'r mater at y tîm priodol i ymchwilio iddo. Byddant yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl.

I geisio osgoi problemau TG, rydym yn cynghori'n gryf eich bod chi'n cyfeirio at y canllawiau TG i ysgolion ac adnoddau canllawiau digidol addysg Llywodraeth Cymru cyn defnyddio'r asesiadau:

https://hwb.llyw.cymru/canolfan-cymorth/addysg-canllawiau-digidol-i-ysgolion/

## 7.2 Cwestiynau cyffredin a datrys problemau technegol

Mae rhai o'r cwestiynau a'r trafferthion mwyaf cyffredin wedi'u nodi yn y ddogfen 'Cymorth System – Cwestiynau Cyffredin' sydd ar gael ar dudalen Cymorth gwefan yr asesiadau personol.

O bryd i'w gilydd, roedd modd i bobl a oedd wedi dod ar draws anawsterau technegol ddatrys y broblem eu hunain, heb fod angen cysylltu â'r ddesg gymorth. Mae'r ddogfen yn cynnwys manylion am yr anawsterau mwyaf cyffredin, felly, a dulliau posibl o'u datrys.

Cysylltu â'r ddesg gymorth yw'r ffordd orau a'r ffordd gyflymaf o ddatrys problem dechnegol, gan amlaf, ac felly mae'r ddogfen hefyd yn esbonio pryd i gysylltu a pha wybodaeth y dylech geisio ei rhoi er mwyn datrys eich problem cyn gynted â phosibl.

# Atodiad: Arweiniad o ran dysgwyr sydd â chofrestriad deuol (unedau cyfeirio disgyblion)

## 1. Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon, cyfeirir at ddysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn prif ysgol/uned ac ysgol/uned atodol, ac un ohonynt yn uned cyfeirio disgyblion (PRU), fel rhai sydd â chofrestriad deuol (PRU).

Mae'r nodwedd cofrestru deuol (PRU) hwn:

- yn caniatáu i ddysgwyr berthyn i fwy nag un ganolfan;
- yn caniatáu i ddysgwyr gael eu cynnwys mewn unrhyw amserlenni neu adroddiadau sy'n cael eu creu gan athrawon pan fydd dosbarth y mae'r dysgwr yn aelod ohono yn cael ei ddethol;
- yn rhoi'r gallu i ddysgwyr newid yn ôl ac ymlaen rhwng yr ysgol a'r uned;
- yn mewngofnodi dysgwr i'r ganolfan lle mae asesiadau wedi'u trefnu ar gyfer y diwrnod hwnnw;
- yn rhoi'r gallu i athrawon o'r ysgol a'r uned drefnu a hwyluso asesiadau ar gyfer dysgwr;
    - yn caniatáu dim ond athrawon o'r ysgol neu'r uned a drefnodd yr asesiad i hwyluso neu addasu'r asesiad a drefnwyd;
- yn rhoi'r gallu i athrawon o'r ysgol neu'r uned gynhyrchu a gweld adroddiadau'r dysgwr.

## 2. Hanfodion

Mae modd gosod ac addasu cofrestriad deuol ar gyfer dysgwr uned cyfeirio disgyblion drwy system rheoli gwybodaeth yr uned, a gwneir hynny gan un o athrawon y brif ysgol/uned. Bydd angen iddynt nodi pa ysgol/uned yw'r brif ganolfan a pha un sy'n atodol.

## 3. Cyn yr asesiad

### 3.1 Sut i drefnu asesiad ar gyfer dysgwyr sydd â chofrestriad deuol

**Cyfeiriwch at adran 3.9 *'Trefnu a newid asesiadau'*, ar dudalen 17 uchod, i weld sut i drefnu asesiad.**

Noder:

- Bydd gan y brif ysgol/uned a'r un atodol yr un mynediad o ran trefnu asesiadau i ddysgwr yr uned. Bydd y dysgwr yn parhau i gael ei gyfyngu i 2 asesiad fesul blwyddyn academaidd fesul pwnc.

# 4. Rhedeg asesiad

## 4.1 Sut i hwyluso asesiad ar gyfer dysgwr sydd â chofrestriad deuol

**Cyfeiriwch at adran 4.1 *‘Hwyluso asesiad personol’*, ar dudalen 34 uchod, i weld sut i hwyluso asesiad.**

Noder:


- Dim ond yr ysgol/uned wnaeth drefnu’r asesiad sy’n gallu hwyluso’r asesiad. Mae hyn yn cynnwys newid, canslo a rhyddhau’r asesiad.

## 4.2 Sut y bydd dysgwyr sydd â chofrestriad deuol yn gallu gweld asesiadau a drefnwyd gan y brif ganolfan neu’r is-ganolfan


Pan fydd y system rheoli gwybodaeth yn nodi bod gan ddysgwr brif ysgol/uned ac un atodol, bydd y dysgwr yn gweld rhyngwyneb defnyddwyr newydd wrth fewngofnodi i wefan yr asesiadau personol.

Bydd cwymplen yn ymddangos i ddysgwyr sydd â chofrestriad deuol yn eu caniatáu i ddewis rhwng yr ysgol/uned, gan ddibynnu ar ble y maent ar y pryd. Wrth fewngofnodi am y tro cyntaf, y dewis diofyn fydd yr ysgol/uned lle mae asesiadau eisoes wedi’u hwyluso y diwrnod hwnnw.

Rhyngwyneb y dysgwr:




Drwy ddewis y gwymplen, bydd y dysgwr yn gweld y ddwy ganolfan mae’n perthyn iddynt. Bydd un eisoes wedi’i dewis. Drwy ddewis y ganolfan arall, bydd y dysgwr yn trosglwyddo i system rheoli gwybodaeth yr ysgol/uned honno.



# 5. Ar ôl yr asesiad

## 5.1 Sut i gynhyrchu adroddiadau i ddysgwyr sydd â chofrestriad deuol


**Cyfeiriwch at <u>adran 5.3</u> '*I weld a rhyddhau adborth y dysgwyr*', <u>adran 5.4</u> '*I weld adroddiadau cynnydd y dysgwyr*', ac <u>adran 5.5</u> '*I weld yr adroddiadau grŵp*', ar dudalennau <u>50</u> i <u>56</u> uchod i weld sut i gynhyrchu adroddiadau.**

Noder:

- Bydd yr adroddiadau cynnydd ac adroddiadau adborth y dysgwyr ar gael i'r athrawon yn yr ysgol a'r uned lle mae'r disgybl wedi'i gofrestru. Bydd canlyniadau'r dysgwr yn cael eu cynnwys yn adroddiadau grŵp a swp-adroddiadau y ddau leoliad, waeth ble y gwnaed yr asesiad, oni chaiff y dysgwr ei ddad-ddethol wrth gynhyrchu'r adroddiad.
- Mae modd i'r ysgol a'r uned greu adroddiadau grŵp a swp-adroddiadau wedi'u teilwra drwy ddad-ddethol dysgwyr penodol fel nad ydynt yn cael eu cynnwys wrth gynhyrchu adroddiadau. **Gweler yr adran nesaf i weld sut.**

## 5.2 Sut i greu adroddiadau grŵp neu swp-adroddiadau wedi'u teilwra


1. O'r dudalen 'Hafan', dewiswch 'Adroddiadau' ac yna 'Adroddiadau grŵp' (neu 'Swp-adroddiadau').





2. Dewiswch 'Cais am adroddiad grŵp'.




3. Cwblhewch y ffurflen sy'n ymddangos, gan sicrhau bod pob maes wedi'i lenwi. **Cyn dewis 'Cais am adroddiad grŵp'**, dewiswch y botwm 'Dethol dysgwyr' sydd ar waelod y ffurflen. Bydd hyn yn bosibl dim ond os yw'r meysydd sydd wedi'u llenwi yn gallu cyfateb i asesiadau a wnaed.




4. Ticiwch y blwch nesaf at enwau'r dysgwyr yr hoffech eu cynnwys wrth greu'r adroddiad.




5. Dewiswch y botwm '+ Cadarnhau'r dysgwyr' i gadw'r newid.

6. Byddwch yn dychwelyd at ffurflen yr adroddiad. Dylai nifer y dysgwyr a ddetholwyd, nesaf at y botwm 'Dethol dysgwyr', adlewyrchu nifer y blychau a diciwyd gennych.




7. Gwiriwch bob maes ar y ffurflen a phan fyddwch chi'n barod, dewiswch y botwm 'Cais am adroddiad grŵp'.